Sgorau i gefnogi Cerddoriaeth UG CBAC – Nodiadau

Alun Guy

Cyhoeddwyd dan nawdd Cynllun Adnoddau Addysgu a Dysgu CBAC
Noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

caa
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

CBAC
WJEC

CYNNWYS

TUDALEN

- Rhagarweiniad 2
- J. S. Bach: Brandenburg Rhif 2, Symudiad 1af 3
- Beethoven: Symffoni Rhif 5 yn C leiaf, Symudiad 1af 6
- Mendelssohn: Concerto i'r Feiolin, Symudiad 1af 9
- Handel: *Zadok the Priest* 12
- Haydn: *Offeren Nelson* (Gloria, Quoniam Tu Solus, Credo) 15
- Schubert: o *Die Schöne Müllerin*: (Am Feierabend; Der Neugierige; Ungeduld) 22
- Corelli: Sonata da Camera Op.2, Rhif 7 yn F (Preludio; Allemanda; Corrente; Giga) 30
- Beethoven: Pedwarawd Llinynnol yn B♭ Op.18, Rhif 6, Symudiad 1af 37
- Brahms: Sonata i'r Clarinét yn E♭ Op.120, Rhif 2, 3ydd Symudiad 40
- Duke Ellington (Black and Tan Fantasy; Take the A-Train) 49
- Queen (Bohemian Rhapsody; Killer Queen) 55
- Loesser: *Guys and Dolls* (Runyonland; Fugue for Tinhorns) 61
- Bernstein: *West Side Story* (Tonight; Maria) 66
- Boublil a Schönberg: *Les Miserables* (On My Own; One Day More) 71
- Mervyn Burtch: o *Tair o Alawon Gwerin* (Cysga di, fy mhlentyn tlws; Wrth fynd efo Deio i Dywyn) 75
- Dilys Elwyn-Edwards: o *Caneuon y Tri Aderyn* (Y Gylfinir; Mae Hiraeth yn y Môr) 79
- Caryl Parry Jones (Pan ddaw yfory; Y Nos yng Nghaer Arianrhod) 83
- The Beatles (Yesterday; Hey Jude) 88

Rhagarweiniad

- Mae'r antholeg hon wedi'i llunio ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio cwrs Cerddoriaeth UG CBAC. Mae'n siŵr bod y rhan fwyaf ohonoch wedi dilyn cwrs Cerddoriaeth TGAU yn ystod blynyddoedd 10 ac 11 ac yn gyfarwydd â'r eirfa gaiff ei defnyddio yn yr arholiad ac yn *TGAU Cerddoriaeth – Llawlyfr y Myfyriwr* (Rhinegold).

- Rwy'n sylweddoli bod nifer ohonoch wedi cwblhau'r cwrs TGAU heb fod yn gwbl gartrefol wrth ddarllen sgorau hen nodiant. Rydych yn rhannu'ch hoffter o gerddoriaeth gyda ni i gyd. Peidiwch â phoeni'n ormodol am ddarllen sgorau a dadansoddi.

- Bydd y nodiadau hyn, gobeithio, yn ffocysu'ch meddwl ar ffurfiau a strwythurau sylfaenol y gerddoriaeth. Nid traethawd academaidd ar gyfer cerddolegwyr mo'r bwriad!

- Mae'r diagramau syml wedi'u cynnwys mewn ymdrech i egluro'r broses o ddadansoddi (sydd weithiau yn ddryslyd ac yn gallu achosi i rai myfyrwyr hyd yn oed gefnu ar y pwnc).

- Pwrpas y templed gaiff ei ddefnyddio yn y nodiadau hyn yw cynnig math o arweiniad i chi: nid dadansoddiad cymhleth a manwl fesul bar mohono, ac ni fu hynny'n fwriad o'r cychwyn cyntaf.

- Nid yw'r nodiadau hyn yn ceisio rhagddyfalu cwestiynau arholiad. Peidiwch â chael eich siomi os cewch chi gwestiynau arholiad sydd heb gael eu trafod yn uniongyrchol nac yn fanwl yn y nodiadau hyn.

- Dylai'r enghreifftiau o gordiau, trawsgyweirio, harmoni, dyfeisiau cyfansoddi ac yn y blaen fod yn fan cychwyn ar gyfer ymchwil bellach. Dylech chwilio am fwy o enghreifftiau o'r elfennau cerddorol hyn yn y gweithiau gosod dewisol, ac yn y recordiadau.

- Cofiwch, cewch fynd â chopi o'r antholeg gyda chi i mewn i'r arholiad â rhifau bar eisoes wedi'u hysgrifennu ar y sgorau mewn pensil.

- Does dim rhifau bar ar bob sgôr yn yr antholeg. Cofiwch wrth ysgrifennu rhifau bar i mewn nad bar 1 yw'r anacrwsis ar ddechrau darn o gerddoriaeth. Bar 1 yw'r bar cyflawn cyntaf.

- Mae'r nodiadau ar *Offeren Nelson* Haydn yn ymwneud â thair adran: 'Gloria' (tudalennau 104-112), 'Quoniam Tu Solus' (tudalennau 119-125) a 'Credo' (tudalennau 126-130).

- Mae cyfeiriadau at agweddau arbennig o'r offeryniaeth yn rhai o'r dyfyniadau sydd i'w clywed yn amlwg iawn ar y cryno ddisg, er mai sgorau piano yn unig sydd yn yr antholeg. Rwy'n eich annog i astudio'r gweithiau drwy wrando'n ofalus arnynt ar y cryno ddisg yn ogystal ag astudio'r sgôr.

Pob lwc i chi gyda'r gwrando a'r ymchwil.

Alun Guy

J. S. Bach: Brandenburg Rhif 2, Symudiad 1af

Rhagarweiniad

Cafodd y set hon o chwe concerto ei chyflwyno i'r Dug Brandenburg ym 1721. Maen nhw'n cael yr enw 'concerti grossi' oherwydd y modd mae'r cyfeiliant 'ripieno' (llinynnau a continuo yn bennaf) yn cyfuno â grŵp dethol o unawdwyr, y 'concertino'. Roedd Bach wrth ei fodd yn arbrofi gyda chyfuniadau newydd o seiniau yn y cyfansoddiadau tri symudiad hyn. Mae angen sôn, fodd bynnag, nad oes offerynnau unawdol yn rhifau 3 a 6.

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**

Lled-ritornello, ond heb raniad pendant rhwng ripieno a concertino. Y ddwy adran (tutti) yn chwarae drwy'r amser fwy neu lai. Cyfres o themâu byrion yn ailymddangos (megis rondo) mewn cyweirnodau gwahanol yw 'ritornello', gyda'r unawdwyr (concertino) yn chwarae atganau rhyngddynt.

❍ **Strwythur** (Rit = ritornello; Con = concertino)

1-8	9-10	11-12	13-14	15-16	17-18	19-20	21-22
Rit 1 F fwyaf	Con 1 F fwyaf	Rit 2 F fwyaf	Con 2 F fwyaf	Rit 3 C fwyaf	Con 3 C fwyaf	Rit 4 C fwyaf	Con 4 C fwyaf

23-28	29-30	31-39	40-59	60-67	68-83	84-93	94-118
Rit 5 C fwyaf	Con 5 F fwyaf	Rit 6 D leiaf	Rit 7 D leiaf C fwyaf F fwyaf B♭ fwyaf	Con 7 G leiaf E♭ fwyaf	Rit 8 C leiaf G leiaf	Con 8 G leiaf D leiaf A leiaf	Rit 9/10 A leiaf F fwyaf

❍ **Gwead**

- Dwys yn bennaf – Bach oedd yr awdurdod ar bolyffoni ac ysgrifennu gwrthbwyntiol.
- Nifer o enghreifftiau o fotiffau gwahanol yn rhyngweithio.

❍ **Cyweiredd**

- Prif gywair: F fwyaf
- Weithiau'n lleiaf, e.e. bar 68 – C leiaf; bar 88 – D leiaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
C fwyaf (llywydd) – barrau 15-28
D leiaf (perthynol lleiaf) – barrau 40-41
B♭ fwyaf (is-lywydd) – barrau 56-59
E♭ fwyaf (nodyn arweiniol meddal) – bar 65
C leiaf (llywydd lleiaf) – barrau 68-71
G leiaf (uwch donydd) – barrau 75-83
A leiaf (meidon fwyaf) – barrau 94-102

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- 7^{fed} ar y llywydd (safle gwreiddiol) – bar 51 (C7)
- 7^{fed} ar y llywydd $\begin{matrix}4\\2\end{matrix}$ (trydydd gwrthdro) – bar 52
- Triad mwyaf $\begin{matrix}6\\3\end{matrix}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 72

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Dilyniant esgynedig – barrau 96-97 (Obo)
- Dilyniant – barrau 33-34 (Ffliwt)
- Dilyniant – barrau 76-79 (Trwmped unawdol)
- Dilyniant disgynedig – barrau 77-79 (Fiola)
- Trawsacen – barrau 50-55; 107-112 (Ffidil 1– ripieno)
- Diweddebau: Perffaith – barrau 8; 28; 39; 83; 93
- Efelychiant – barrau 96-98 (Ffidil unawdol a Ffliwt)
- Seiliau arpeggiaidd – barrau 1-2 (Trwmped)
- Offeryniaeth deneuach – barrau 60-67 (concertino a'r continuo)

❍ **Offeryniaeth**

Concertino
Unawdwyr
- *Tromba*: Trwmped (dim falfiau yn nyddiau Bach). Y rhan wedi'i hysgrifennu 4^{ydd} yn is na'r sain.
- *Flauto* (Flûte à bec): Recorder
- *Obo*
- *Violino*: Ffidil

Ripieno
- Ffidil I
- Ffidil II
- Fiola
- Soddgrwth
- Bas Dwbl
- Harpsicord/Cembalo continuo

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Tasto solo (barrau 102-103): Harpsicord, chwarae'r nodau heb lenwi'r harmonïau
all unisono: Soddgrwth/Bas a'r Harpsicord yn unsain
piano: tawel
pianissimo: tawel iawn
forte: uchel

Pwyntiau diddorol

- Gwrthbwynt gwych a gwefreiddiol.
- Gwrthbwynt teiran rhwng y Ffliwt, y Fiola a'r Continuo – barrau 1-2.
- Symudiadau hanner cwaferi/cwaferi di-dor gydol y symudiad – yn un o'r offerynnau unawdol neu'r ripieno.
- Pedwar offeryn unawdol traw uchel cwbl wahanol yn cael eu gwrthgyferbynnu yn y concertino, ac eto mae pob un yn glywadwy.
- Motiff hanner cwaferi agoriadol yn y Continuo (barrau 1-2) yn ymddangos hefyd gan offerynnau eraill, e.e. Trwmped – barrau 19-20; Obo – barrau 40-41.
- Ffidil unawdol yn cyflwyno **ffigur newydd arbennig** ym marrau 9-10 a phob offeryn unawdol arall yn ei chwarae yn ei dro – ripieno ddim yn chwarae'r ffigur hwn o gwbl. (Obo – barrau 13-14; Ffliwt – barrau 17-18; Trwmped – barrau 21-22.)
- Efelychiant (barrau 60-67) i **bob un o'r 4 unawdydd**, yn defnyddio'r ffigur arbennig hwn (Ffliwt, Ffidil, Obo a Trwmped).
- Defnyddiai Bach ei ddiweddebau weithiau er mwyn denu sylw at syniadau cerddorol newydd.
- Defnydd o **8 motiff**, weithiau â'r concertino ac weithiau â'r ripieno, gan amlaf ag anacrwsis.
- Dyma'r unig goncerto Brandenburg sy'n defnyddio Trwmped.
- Motiff ffanfferaidd yn y Trwmped (barrau 1-2), a'r Continuo (barrau 5-6).
- Llinell fas ddi-dor yn y continuo – un o hoff ddyfeisiau Bach.
- Continuo yn cael cyfle i chwarae thema wreiddiol y concertino (barrau 1-2) ym marrau 56-57 a barrau 88-89, fel rhyw fath o ryddhad o'r cyfeiliant hanner cwaferi/cwaferi di-dor.
- Dim cyfeiriadau o gwbl at gyflymdra/dynameg ar y sgôr, ond fel arfer yn cael ei chwarae'n *Allegro* ac yn *forte*.

Beethoven: Symffoni Rhif 5 yn C leiaf, Symudiad 1af

Rhagarweiniad

Cywaith ar gyfer cerddorfa yw symffoni, â phedwar symudiad yn perthyn iddi gan amlaf. Mae barrau agoriadol y symudiad cyntaf hwn yn cynnwys un o'r motiffau mwyaf adnabyddus a ysgrifennwyd erioed. Trwy ddefnyddio'r ffurf sonata i gyfansoddi'r symudiad hwn, roedd Beethoven yn dilyn ôl traed cewri'r traddodiad clasurol, Haydn a Mozart.

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Sonata

❍ **Strwythur**

Dangosiad 1-124	**Datblygiad** 125-247	**Ailddangosiad** 248-373	**Coda** 374-502
Testun1 (1-24) Testun 2 (59-93) Codeta (94-124)	Amrywiaeth o gyweiriau. Deunydd testun 1 gan mwyaf.	Testun1 (248-268) Testun 2 (303-345) Codeta (346-373)	Deunydd a ddaw o destun 1 a thestun 2. Tutti ac adrannau antiffonïaidd.

❍ **Gwead**
- Amrywio o homoffonig dwys (barrau 248-252) i denau (barrau 63-82).

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: C leiaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
E♭ fwyaf (perthynol mwyaf) – 2^{il} destun
F leiaf (is-lywydd lleiaf) – bar 130
G leiaf (llywydd lleiaf) – bar 154
C fwyaf (tonydd mwyaf) – bar 195

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- C leiaf: y tonydd $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 492
- D♭ fwyaf $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 382
- 7^{fed} ar y llywydd – barrau 182-186; 292-294
- 7^{fed} cywasgedig – barrau 56; 300

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**

- Pedal (tonydd) – barrau 33-47 (Soddgrwth a Bas)
- Ailadrodd – barrau 160-167 (Ffidil I & II a Ffliwtiau)
- Dilyniant – barrau 408-414 (Ffidil I)
- Diweddebau: Perffaith – barrau 194-195; 501-502
  Amherffaith – barrau 267-268
- Cyfeiliant pizzicato – barrau 254-263 (Fiola, Soddgrwth, Bas)
- Atebion antiffonïaidd – barrau 196-227; 442-449 (Llinynnau a Chwythbrennau)

❍ **Offeryniaeth**

zu 2: y ddau chwaraewr yn chwarae'r un rhan yn unsain
1.: prif chwaraewr yn unig i chwarae'r rhan
Flauti: Ffliwtiau
Oboi: Oboau
Clarinetti (B♭): Clarinetau. Offeryn trawsnodi (ysgrifennu'r rhan 2fed yn uwch na'r sain)
Fagotti: Baswnau. Ysgrifennu'r rhan yn allwedd y bas fel arfer, ond weithiau yn allwedd y tenor pan fydd rhan y bas yn mynd yn uchel iawn, i osgoi defnyddio nifer fawr o linellau estynedig (e.e. bar 102)
Corni (E♭): Cyrn. Offeryn trawsnodi (ysgrifennu'r rhan 6ed mwyaf yn uwch na'r sain)
Trombe (C): Trwmpedau
Timpani (C.G): Tympanau wedi'u tiwnio i nodau C a G (y tonydd a'r llywydd yn y symudiad hwn)
Violino I & II: Ffidil I & II
Viola: Fiola (ysgrifennu yn allwedd yr alto)
Violoncello: Soddgrwth. Ysgrifennu'r rhan yn allwedd y bas fel arfer, ond weithiau yn allwedd y tenor pan fydd rhan y bas yn mynd yn uchel iawn, i osgoi defnyddio nifer fawr o linellau estynedig (e.e. barrau 83-93)
Contrabasso: Llinynnol/Bas Dwbl (y sain 8fed yn is na'r nodau ysgrifenedig)

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**

Allegro con brio: Cyflym a nerthol
Adagio: Araf
Minim: 108 curiad i'r funud – arwydd tempo gan gyfansoddwr neu olygydd
dolce: melys
sf (sforzando): acen gref
ff (fortissimo): uchel iawn
p (piano): tawel
pp (pianissimo): tawel iawn
cresc. (crescendo): cynyddu'r sain yn raddol
più: mwy
sempre più: mwy yn gynyddol
dimin. (diminuendo): tawelu'r sain yn raddol
pizz. (pizzicato): tynnu tannau offeryn llinynnol â'r bys
arco: ailddechrau chwarae â'r bwa

Pwyntiau diddorol

- Mae Beethoven yn hoffi cyferbynnu testunau 1 a 2 yn ei symffonïau.
- Mae'r symudiad hwn yn dibynnu'n llwyr ar y motiff 4 nodyn agoriadol (3ydd mwyaf disgynedig), ac mae'r motiff yn derbyn nifer o siapiau alawol gwahanol, defnyddiau gwrthbwyntiol a chyfuniadau strwythurol gan Beethoven.
- Mae pedair adran y symudiad hwn – dangosiad, datblygiad, ailddangosiad a coda – bron yn union yr un hyd, a bron yn berffaith gytbwys yn gerddorol hefyd.
- Mae'r sgorio yn yr ailddangosiad yn llawnach, ac mae testun 2 wyth bar yn hirach.
- Cadenza bychan – bar 268 (Obo). Bar dolefus yw hwn yn adran yr ailddangosiad sy'n cael gwared â'r tensiwn a fu gynt yn y perfformiad.
- Er bod strwythur/adeiledd y symudiad yn gonfensiynol, gwreiddioldeb y syniadaeth a gwychder yr egni a'r ysbrydoliaeth cerddorol sy'n gosod y symffoni hon gyda goreuon y cyfnod clasurol.
- Mae adran y dangosiad yn symudiad cyntaf 9 symffoni Beethoven yn cael ei hailadrodd fel arfer. (Ymwrthod â'r arferiad hwn wnaeth Mendelssohn yn ei goncerto i'r ffidil.)
- Esblygu wnaeth ffurf y sonata yn y 18fed ganrif lle roedd y ffurf yn ymwneud â threfniant y themâu/testunau, eu datblygiad a'u perthynas â chyweiriau. Mae'r ffurf wedi para cyhyd ac wedi cynhyrchu gweithiau meistrolgar oherwydd ei bod mor hyblyg a chanddi'r gallu i amrywio'i hun yn eang.
- Yn groes i'r disgwyl, does dim adran y bont *go iawn* yn adran y dangosiad na'r ailddangosiad yn y symudiad hwn. Mae pedal y tonydd (barrau 33-56) yn sicrhau bod y gerddoriaeth yn aros yn y tonydd, C leiaf. Mae'r barrau hyn hefyd yn union yr un peth o ran yr harmoni ag yn adran gyfatebol yr ailddangosiad (barrau 277-296[1]).
- Yr un cord amwys (cywasgedig y 7fed) ym marrau 56 a 300 (â newidiadau enharmonig angenrheidiol wrth gwrs) sy'n achosi'r 'pontio' sydyn.

Mendelssohn: Concerto i'r Feiolin, Symudiad 1af

Rhagarweiniad

Cafodd y concerto hwn i'r feiolin ei ysgrifennu ar gyfer Ferdinand David, ffrind agos i'r cyfansoddwr, a'i berfformio am y tro cyntaf ym 1845 yn Leipzig.

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Sonata

❍ **Strwythur**

Dangosiad (1-226)	**Datblygiad** (226-335)	**Ailddangosiad** (335-528)
Testun 1 (1-72) Y Bont (72-131) Testun 2 (131-210) Codeta (210–226)	Cyweiriau amrywiol Y Bont (226) Testun 1 (240) Cadenza (299)	Testun 1 (335-351) Y Bont (351-377) Testun 2 (377-459) Codeta (459-473) Coda (473–528)

Cadenza (barrau 299-335)
Dyma'r adeg (ar ddiwedd symudiad) yn y concerto pan fyddai'r unawdydd yn cael rhwydd hynt i arddangos gallu technegol meistrolgar ac arddull bravura ddigyfeiliant ei chwarae. Penderfynodd Mendelssohn ymwrthod â'r traddodiad hwn gan ysgrifennu ei cadenza ei hunan ar gyfer yr unawdydd, a'i osod *cyn* adran yr ailddangosiad yn hytrach nag ar ddiwedd y symudiad. Defnyddiodd Mendelssohn y cadenza hwn felly fel adran bontio rhwng adran y datblygiad ac adran yr ailddangosiad.

❍ **Gwead**
- Ysgafn wrth gyfeilio i'r unawdydd, ond dwysach pan fydd yr unawdydd yn tacet (tawel) a'r gerddorfa i gyd yn chwarae (tutti), e.e. barrau 48-76

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: E leiaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
Dangosiad
A leiaf (is-lywydd lleiaf) – barrau 28-29
G fwyaf (perthynol mwyaf) – bar 131

Datblygiad
A leiaf – bar 226
G fwyaf – bar 241
E leiaf – bar 245
C fwyaf – bar 248
A leiaf – bar 251
E fwyaf (tonydd mwyaf) – bar 255
B fwyaf – bar 282
E fwyaf (2il destun) – bar 377

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- 7fed ar y llywydd, e.e. bar 298
- 7fed cywasgedig, e.e. bar 44

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Pedal (llywydd) – bar 33 (Soddgrythau a Basau Dwbl)
- Pedal (tonydd) – bar 48 (Trwmpedau, Cyrn a'r Tympanau)
- Efelychiant – barrau 505-509 (Ffliwtiau ac Oboau)
- Cyfeiliant trawsacen – barrau 48-55 (Ffidlau II, Fiolâu)
- Arpeggi addurnedig – bar 113 (Ffidil unawdol)
- Sgorio teneuach – bar 131 (Ffliwtiau, Clarinetau a Ffidil unawdol)
- Diweddebau: Perffaith (yn G fwyaf), e.e. barrau 167-168 (Llinynnau)
- Cyfeiliant pizzicato – barrau 181-189 (Llinynnau)
- Rubato/Ad lib – barrau 299-334 (Ffidil unawdol)
- Dilyniant – barrau 359-360; 428[4]-430 (Ffidil unawdol)
- Tagiad dwbl – barrau 505-510 (Ffidlau I)

❍ **Offeryniaeth**
zu 2: y ddau chwaraewr yn chwarae'r un rhan yn unsain
Flauti: Ffliwtiau
Oboi: Oboau
Clarinetti in A: Clarinetau. Offeryn trosi
Fagotti: Baswnau
Corni in E: Cyrn. Offeryn trosi
Trombe in E: Trwmpedau. Offeryn trosi
Timpani in E-H: Tympanau wedi'u tiwnio i'r nodau E a B (tonydd a'r llywydd yn y concerto hwn).
Violino principale: Ffidil unawdol
Violino: Ffidil
Viola: Fiola
Violoncello: Soddgrwth
Contrabasso: Llinynnol/Bas Dwbl. Offeryn trosi (seinio 8fed yn is na'r nodyn ysgrifenedig)

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Allegro molto appassionato: Yn gyflym â llawer o angerdd

Pwyntiau diddorol

- Thema agoriadol gan yr unawdydd Ffidil yn cael ei chwarae ar dant E i gyd, ymhell uwchben yr erwydd.
- Y tri symudiad yn gysylltiedig, pob un yn dilyn ymlaen oddi wrth y llall.
- Strwythur clasurol ynghyd â theimlad rhamantaidd dwys.
- Yr unawdydd a'r gerddorfa'n dechrau gyda'i gilydd fwy neu lai.
- Does dim ailadrodd adran y dangosiad fel yn y concerti clasurol, lle byddai'r dangosiad fel arfer yn cael ei chwarae gan y gerddorfa yn unig, yna ailadrodd yr un adran gyda'r unawdydd a'r gerddorfa yn rhannu'r themâu.
- Cydbwysedd effeithiol rhwng yr unawdydd a'r gerddorfa.
- Amrywiaeth o emosiynau – angerdd a llonyddwch – yn cyfnewid yn fynych.
- Ysgrifennu dramatig yn gwrthgyferbynnu ag alawon cytbwys a chymesur.
- Llinellau alawol blodeuog, llyfn.

- Y ffocws yn newid yn gyson rhwng yr unawdydd a'r gerddorfa.
- Nid yw'r cadenza yn gyfan gwbl feistrolgar, ond yn rhannol flodeuog.

❍ **Gwybodaeth bellach**

http://www.naxos.com/composerinfo/bio24619.htm



Handel: *Zadok the Priest*

Rhagarweiniad

Yn ôl Llyfr y Cronicl (Yr Hen Destament), cafodd Solomon ei goroni'n frenin wedi marwolaeth ei dad, y Brenin Dafydd, gan Nathan y proffwyd a Sadoc yr offeiriad. Cyfansoddodd Handel, 'Meistr Cerddoriaeth y Brenin' ers 1712, yr anthem hon ar gyfer coroni'r Brenin Siôr II yn Abaty Westminster ym 1727. Mae'r weithred yn symbol o goroni beiblaidd y Brenin Solomon.

Cafodd yr anthem Faróc Saesneg hon ei chyfansoddi'n wreiddiol ar gyfer 7 rhan leisiol a cherddorfa, ond yn aml y dyddiau hyn fe glywch drefniant ohoni ar gyfer 4 llais (SATB).

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**

Mewn tair rhan gysylltiol:
1. *Zadok the Priest* 2. *And all the People Rejoiced* 3. *God save the King*

❍ **Strwythur**

1-30	31-62	63-121
Adran 1af Rhagarweiniad (Offerynnol) *Zadok the Priest*	**2il adran** *And all the People Rejoiced*	**3edd adran** *God save the King*

❍ **Gwead**

Adran 1af: Gweddol ysgafn/tenau yn yr agoriad offerynnol. Gosodiad byr homoffonig yn seiliedig ar harmonïau'r rhagarweiniad offerynnol.

2il adran: Homoffonig, yn seiliedig ar linellau legato'r cytgan ac ar rhythmau dot y cyfeiliant. Mae ychwanegu lleisiau SATB yn creu dimensiwn ehangach. Mae Pres a Thympanau yn ymddangos ar ddiweddebau ac yn cryfhau'r gwead.

3edd adran: Ffurf Deiran (ABA) – 4 syniad cerddorol yn gwau drwy ei gilydd. Ysgrifennu gwrthbwyntiol yn creu gwead dwysach.

❍ **Cyweiredd**

- Prif gywair: D fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
G fwyaf (is-lywydd) – barrau 4-5; 40-42
A fwyaf (llywydd) – barrau 7-8; 78-80
B leiaf (perthynol lleiaf) – barrau 49-52; 91-94
F# leiaf (meidon leiaf) – barrau 99-101

❍ **Harmoni**
- Diatonig/Cytseiniol
- Harmonïau cromatig
- Safle gwreiddiol a gwrthdro cyntaf yn bennaf
- Tonydd a llywydd gan amlaf yn yr adran ganol

Cordiau:
- Tonydd $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 1
- A leiaf $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 3
- D fwyaf $\frac{6}{4}$ (ail wrthdro) – bar 7[1]
- 7[fed] ar y llywydd $\frac{4}{2}$ (trydydd gwrthdro) – bar 12

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Dilyniant – barrau 74-75 (Vl II); 84-86 (Sopranos); 92-93 (Altos a'r Tenoriaid)
- Ailadrodd – barrau 34-38 (cyfeiliant); 63-65 (pob rhan)
- Pedal – barrau 6-8; 14-17
- Ostinato – barrau 32-39; 41-45; 54-60 (bas y cyfeiliant)
- Diweddebau: Perffaith – barrau 35-36; 43-44; 93-94
  Amherffaith – barrau 28-30
  Amen – barrau 120-121

❍ **Offeryniaeth**
- 2 Obo
- 3 Thrwmped
- Llinynnau
- Continuo (Organ/Harpsicord)

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Andante maestoso: Gweddol araf ac urddasol
Allegro: Cyflym a bywiog
Adagio: Araf iawn
A tempo ordinario: Cyflymder cymedrol
p (piano): tawel
f (forte): uchel
ff (fortissimo): uchel iawn
cres. (crescendo): cynyddu'r sain

Pwyntiau diddorol

- Defnydd Handel o harmoni bloc/homoffonig er mwyn sicrhau bod y geiriau'n cael eu cynanu'n glir, e.e. barrau 23-29 a 63-66.
- Mathau o gyfeiliant:
  (i) Cordiau hanner cwaferi gwasgar – barrau 1-29
  (ii) Ffigurau cwaferi dot a hanner cwaferi – barrau 33-59
  (iii) Hanner cwaferi rhededog yn y 3[edd] adran – barrau 87-90
  (iv) Cwaferi secco (sych) – barrau 92 a 93
- Llinell fas ddisgynedig yn y rhagarweiniad a barrau 95-97.

- Pont gerddorfaol – barrau 74-78. Arddull efelychiadol (trawsgyweirio o'r tonydd i'r llywydd, I–V).
- Arddull leisiol felismatig (llawer o nodau ar un sillaf – '*Amen*'), e.e. barrau 114-116 (rhan leisiol y Bas).
- Dilyniant cordiol agoriadol y rhagarweiniad offerynnol (barrau 1-8) yn cael ei ailadrodd ym marrau 23-30 â'r lleisiau.
- Ailadrodd geiriau, e.e. barrau 43-52 – '*Rejoiced*'.

❍ **Gwybodaeth bellach**

www.naxos.com/composerinfo/George_Frideric_Handel/24403.htm

Haydn: *Offeren Nelson*

Rhagarweiniad

Ysgrifennodd Haydn o leiaf 12 offeren gorawl, a hawdd gweld dylanwad arddulliau operatig Napoli a thraddodiad antiffonïaidd Fienna ar yr offerennau hyn. Cafodd yr offeren hon (rhif 9) ei chyfansoddi ym 1798 ac mae'n defnyddio geiriau Lladin y gwasanaeth Pabyddol. Mae'n llawen, a mwy na thebyg dyma offeren fwyaf poblogaidd Haydn.

Mae llawer o dechnegau cyfansoddi, dyfeisiau, harmonïau a phwyntiau diddorol, wrth reswm, yn gyffredin i bob un o'r tri chytgan.

'Gloria'

'Gloria in excelsis Deo, et in terra pax hominibus bonae voluntatis.'
(Gogoniant i Dduw yn y goruchaf, ac ar y ddaear, tangnefedd ac ewyllys da i ddynion.)

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Unawd a Chôr / Triawd lleisiol / Cytgan / Unawdau / Cytgan / Unawdau / Pedwarawd lleisiol / Cytgan

❍ **Strwythur**

1-15	16-32	33-51	52-70
Unawdydd Soprano a chôr (SATB) yn ailadrodd motiffau. Arddull gorawl homoffonig.	**Triawd unawdol: Bas, Tenor a Soprano.** Motiff unawdol newydd mewn efelychiant. Llai o angerdd nawr â'r cyfeiliant llinynnol yn unig.	**Côr** yn canu mewn **unsain** â'r gerddorfa – dilyniannau cromatig yn symud fesul cam.	**Unawdydd Alto** (ymddangosiad cyntaf) â'r thema agoriadol, ond dim ailadrodd gan y **côr**. **Unawdydd Soprano** â'r thema.
D fwyaf	E leiaf (21)	E leiaf F# leiaf A fwyaf	A fwyaf B leiaf

71-77	78-89	91-97	98-105
Côr â'r thema agoriadol (rhythm wedi newid i rythm dot).	Dim unawdydd Soprano y tro hwn. **Unawdwyr Tenor a Bas** â'r motiff (bar 16).	**Pedwarawd** yn canu rhan o'r motiff (bar 16).	**Coda Corawl** Harmonïau y tonydd a'r llywydd gan mwyaf, yn defnyddio'r patrwm rhythmig agoriadol.
D fwyaf	Tonydd mwyaf/ lleiaf	D leiaf D fwyaf	D fwyaf

❍ **Gwead**
- Tenau â'r unawdwyr
- Dwys â'r côr
- Homoffonig
- Llyfn

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: D fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
E leiaf (uwch donydd) – bar 21
A fwyaf (llywydd) – bar 42
B leiaf (perthynol lleiaf) – bar 62
D leiaf (tonydd lleiaf) – bar 81

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- Safle gwreiddiol a gwrthdro cyntaf gan mwyaf
- Is-lywydd (safle gwreiddiol) – bar 7^{1}
- Tonydd (safle gwreiddiol) – bar 9^{1}
- 7^{fed} ar y llywydd (safle gwreiddiol) – bar 20^{1}
- 7^{fed} ar y llywydd (gwrthdro cyntaf) – barrau 11^{1} ; $29^{3,4}$; 41
- 7^{fed} cywasgedig – barrau 33^{3}; 34^{3}; 35^{3}

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Ailadrodd – barrau 1-4 (motiff agoriadol yr unawdydd Soprano yn cael ei ailadrodd gan y côr); bar 16 (Bas, yn cael ei ailadrodd gan y Tenor – efelychiadol)
- Pedal – barrau 15-18; 21-24; 89-93
- Diweddebau: Perffaith – barrau 32; 50; 62; 105
- Diweddebol: $\frac{6}{4}$ – $\frac{5}{3}$ – barrau 2-3; 14-15; 49-50
- Atebion antiffonïaidd rhwng unawdydd a chôr – barrau 1-4
- Dilyniant – barrau 64-67 (unawdydd Soprano)
- Appoggiatura yn y rhan leisiol – barrau 81; 84 (unawdydd Tenor)

❍ **Offeryniaeth**
- 3 Thrwmped
- Tympanau
- Organ
- Llinynnau
- Côr cymysg
- Pedwarawd lleisiol (SATB)

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Allegro: Cyflym a disglair
fz (forzato): gwthio'r sain
p (piano): tawel

Pwyntiau diddorol

- Amser cyffredin.
- Angerdd y cyfeiliant yn cynyddu (tutti) wrth i'r cytgan ddod i mewn.
- Offeryniaeth ysgafnach (llinynnau) wrth gyfeilio i'r unawdwyr.
- Defnydd o'r unawdwyr (pedwarawd) a'r côr yn cydblethu yma a thraw heb adrannau penodedig iddynt (fel yn offerennau Mozart).
- Enghreifftiau gwych o gymesuredd cyfansoddi, lle mae deunydd thematig o'r adran hon hefyd yn cael ei ddefnyddio yn y 'Quoniam'.
- Pontydd offerynnol byr rhwng unawdwyr – barrau 50-51; 54-55; 60-61; 69-70.
- Ysgrifennu offerynnol arpeggiaidd Haydn ar gyfer yr offerynnau uwch, e.e. barrau 15-18; 96-98.
- Hanner cwaferi yn esgyn trwy'r raddfa wrth i'r brawddegau corawl ddechrau – barrau 3; 71; 99; 100.

'Quoniam Tu Solus'

'Quoniam tu solus, solus sanctus.' (Sanctaidd ydwyt.)
'Tu solus altissimus.' (Dyrchafedig ydwyt.)

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Unawd a Chôr / Pont leisiol / Ffiwg leisiol / Pedwarawd lleisiol / Coda

❍ **Strwythur**

1-15	17-22	22-61	62-77	77-82
Unawdydd Soprano a chôr (SATB) yn ailadrodd y motiffau. Arddull gorawl homoffonig. Ailadrodd barrau 1-15 y 'Gloria', ond y geiriau yn wahanol.	**Adran bont gorawl.** Wedi'i seilio'n bennaf ar gordiau'r tonydd a'r llywydd. Llai o densiwn nawr. Dim ond llinynnau'n cyfeilio. Cydiad ffiwgaidd cyntaf gan y côr (Baswyr).	**Côr yn canu ffiwg 4 rhan,** â phob llais yn datgan y testun mewn amryw o gyweiriau. Mae'r ffiwg gorawl hon yn cynnwys atebion a chyfalawon (gweler isod) â chymorth cerddorfaol sy'n chwarae'r rhannau corawl.	**Pedwarawd unawdol** yn dychwelyd, gan efelychu'r motiff graddfeuol gafodd ei ddefnyddio ynghynt gan Haydn yn y 'Gloria' (barrau 16 a 78). Bas, Tenor ac Alto yn dod i mewn yn y drefn yna, tra bo'r Soprano yn canu adran unawdol fwy blodeuog/rococo.	**Coda Tutti.** Adran ddisglair â'r unawdwyr, y côr a'r gerddorfa yn serennu – cymysgedd o arddulliau polyffonig a homoffonig. Uchafbwynt esgynedig, yn gorffen â'r Pres a'r Tympanau yn chwarae motiffau rhythmig nodweddiadol 'glasurol' o gwaferi a hanner cwaferi. (barrau 80-82).
D fwyaf	D fwyaf	D fwyaf	D fwyaf	D fwyaf

❍ **Gwead**
- Tenau â'r unawdwyr
- Dwys â'r côr
- Homoffonig
- Polyffonig
- Llyfn

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: D fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
B leiaf (perthynol lleiaf) – bar 33
E leiaf (uwch donydd lleiaf) – bar 44

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- Safle gwreiddiol yn bennaf – bar 61^{1}
- Gwrthdro cyntaf – bar 77^{2}
- Tonydd (safle gwreiddiol) – bar 9^{1}
- Is-lywydd (safle gwreiddiol) – bar 2^{1}
- 7^{fed} ar y llywydd (safle gwreiddiol) – bar 9^{3}
- 7^{fed} ar y llywydd (gwrthdro cyntaf) – barrau 5^{1}; 6^{1}; 11^{1}; 79^{1}
- 7^{fed} ar y llywydd (ail wrthdro) – bar 13^{3}
- 7^{fed} ar y llywydd (trydydd gwrthdro) – bar 5^{3}

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Ailadrodd – motiff agoriadol yr unawdydd Soprano yn cael ei ailadrodd gan y côr (1-4), â mân newidiadau rhythmig
- Pedal y tonydd – barrau 15-20; 61-68^{1}; 71-77^{1} (cerddorfa)
- Diweddebau: Perffaith – barrau 15; 81; 82
- Diweddebol: diweddeb $\frac{6}{4}$ – $\frac{5}{3}$ – bar $2^{3,4}$
- Atebion antiffonïaidd rhwng unawdydd a chôr – barrau 1-4
- Cyfeiliant trawsacen (llaw dde) – barrau 17-22
- Dilyniant – barrau 77-78 yn rhannau'r Soprano, yr Alto a'r cyfeiliant offerynnol
- Dilyniannau harmonig cromatig – barrau 28-31
- Gwrthdestun yn parhau gan y Baswyr ym marrau 24-25 (Amen) yn erbyn cydiad ffiwgaidd y Tenoriaid

Ffiwg: Cyfansoddiad gwrthbwyntiol yn seiliedig ar *alaw/testun/llais*, gafodd ei glywed yn lleisiau'r Bas, Tenor, Alto a Soprano ar y dechrau (bar 22). Mae'r lleisiau i gyd yn eu tro yn pasio'r **baton alawol** ymlaen o un i'r llall.

Mae'r Bas (bar 22) yn dechrau ar y llywydd (5^{ed}) a'r Tenor (bar 24) ar y tonydd. Mae'r cyfwng agoriadol o **2^{il}** gan y Bas yn newid i gyfwng o **3^{ydd}** gan y Tenor, yn yr un modd gyda'r Alto (bar 26) a'r Soprano (bar 28). Caiff yr atebion yma gan y Tenor a'r Alto eu galw yn **atebion tonaidd** (oherwydd nad ydyn nhw yn union yr un peth fesul nodyn). Pan fydd yr atebion yn union yr un peth fesul nodyn, cânt eu galw yn **atebion real**.

Mae'r rhannau cerddorfaol yn dyblu'r rhannau corawl gan mwyaf yn y ffiwg.

Cyfalaw (testun): Alaw newydd, ddim mor bwysig, sy'n cael ei chwarae yr un pryd â'r testun.

❍ **Offeryniaeth**
- 3 Thrwmped
- Tympanau
- Organ
- Llinynnau
- Côr cymysg
- Pedwarawd lleisiol (SATB)

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Allegro: Cyflym a disglair
Tutti: Pawb – hynny yw, yr unawdwyr a'r côr

Pwyntiau diddorol

- Arddull flodeuog/rococo hen ffasiwn yn amlwg yn ysgrifennu Haydn ar gyfer y côr a'r gerddorfa.
- Ysgrifennu melismatig ar gyfer y Soprano ar y gair 'Amen' – barrau 64-71; 77-80.
- Cydiadau ffiwgaidd stretto (tynn/cul) ym marrau 44-61, pan ddaw lleisiau eraill â'r alaw i mewn cyn i'r llais cyntaf orffen datgan yr alaw!
- Cyfeiliant cerddorfaol yn y ffiwg yn symud fesul cwaferi (cerdded) gan mwyaf.

‘Credo’

‘Credo in unum Deum Patrem omnipotentum, factorem coeli et terrae.’
(Credaf yn un Duw Hollalluog, creawdwr nef a daear.)

Elfennau cerddorol

❍ Ffurf

Rhagarweiniad / Cytgan / Pont gerddorfaol / Cytgan / Pont gerddorfaol / Cytgan / Coda

❍ Strwythur

1-7	8-27	27-31	31-47	47-50	50-77	78-83
Rhagarweiniad cerddorfaol sy’n symud fesul cam ac yn cael ei chwarae mewn unsain staccato. Arddull homoffonig. D fwyaf	**Canon 2 yn 1** ‘ar y pumed’ yn defnyddio chwe nodyn cyntaf y rhagarweiniad offerynnol. Llinellau lleisiol yn ymdoddi i mewn i’r cyfeiliant cerddorfaol, sydd yn fwy polyffonig ei arddull.	Adran bontio gerddorfaol/ interliwd.	Canon yn parhau gan y côr, ond nawr yn dechrau ar drydydd curiad y bar. A fwyaf	Adran bontio gerddorfaol/ interliwd.	**Canon 2 yn 1** yn parhau, gan ddefnyddio darnau o farrau 8-18. Mwy cromatig yn awr â defnydd helaeth o ddilyniant. Cyfeiliant cerddorfaol yn y rhannau uchaf â symudiad cwaferi di-dor.	**Coda corawl** nawr mewn harmoni SATB am yr unig dro yn y cytgan.

❍ Gwead

- Homoffonig, e.e. barrau 77-83
- Polyffonig, e.e. barrau 31-47

❍ Cyweiredd

- Prif gywair: D fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
A fwyaf (llywydd) – bar 28
B leiaf (perthynol lleiaf) – bar 49

❍ Harmoni

- Nifer o harmonïau cromatig yn y cyfeiliant cerddorfaol

Cordiau:
- Diatonig
- Safle gwreiddiol yn bennaf
- Gwrthdro cyntaf – bar 14[3]
- Ail wrthdro – bar 80[1]
- Tonydd (safle gwreiddiol) – bar 78[1]
- Is-lywydd (safle gwreiddiol) – bar 9[1]
- 7[fed] ar y llywydd (safle gwreiddiol) – bar 13[4]
- 7[fed] ar y llywydd (gwrthdro cyntaf) – bar 77[4]

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Gohiriannau – bar 29 (9-8)
- Dilyniant – barrau 51-54; 64^4-68^4 (rhannau corawl)
- Nodau tonnog, nodau camu a chwaferi arpeggiaidd yn y cyfeiliant, e.e. barrau 61-64

Canon: Dyfais gyfansoddi lle mae alaw mewn un rhan/llais yn cael ei hailadrodd fesul nodyn mewn rhan/llais arall, tra bydd yr alaw wreiddiol yn y rhan gyntaf yn dal i fynd ymlaen (math o orgyffwrdd alawol).

Canon 2 yn 1: Mae dau lais yn canu rhan y gallai un llais ei chanu. Y Sopranos a'r Tenoriaid yn dechrau ar y tonydd, yna'r Altos a'r Baswyr yn dod i mewn un bar yn hwyrach ar gyfwng o 5^{ed} yn is.

❍ **Offeryniaeth**
- 3 Thrwmped
- Tympanau
- Organ
- Llinynnau
- Côr cymysg

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Allegro con spirito: Cyflym, disglair ac egnïol

Pwyntiau diddorol

- Mae'n dechrau ag unsain cerddorfaol ac yn gorffen â chanu unsain corawl.
- Amser cyffredin rhanedig, h.y. dau guriad yn y bar.
- Mae Haydn yn tanlinellu'i gred mewn **un Duw** trwy ddefnyddio **un thema** sy'n cael ei chanu yn **unsain**.
- Appoggiatura – bar 9^3 (cyfeiliant)
- Y troad **~** – bar 13^2 (cyfeiliant)
- Y tril ***tr*** – bar 18^1 (cyfeiliant)

Schubert: *Die Schöne Müllerin*
(Morwyn Brydferth y Felin)

'Pan ddaeth barddoniaeth a cherddoriaeth i lawr i'r Ddaear hon, daethant yn rhan o enaid Franz Schubert .'

Dietrich Fischer-Dieskau (cantor lieder enwog o'r Almaen)

Rhagarweiniad

Lieder yw'r gair Almaeneg am gân. Ysgrifennodd Schubert (1797-1828) dros 600 o ganeuon, y rhan fwyaf ohonynt yn rhamantaidd ac yn hapus. Mae'r cylch hwn o ganeuon, a gyfansoddwyd pan oedd Schubert yn 26 oed, yn cynnwys 20 cân. Ystyr *cylch o ganeuon* yw grŵp o ganeuon cysylltiedig sy'n cael eu perfformio mewn dilyniant ar thema ganolog, yn debyg i *The Wall* gan Pink Floyd. Fel arfer, yr un cyfansoddwr/libretydd sy'n cyfansoddi'r gerddoriaeth a'r geiriau i gyd. Mae'r cylch hwn yn adrodd hanes 'triongl cariad' rhwng heliwr a chrwydryn ifanc hapus sydd mewn cariad angerddol â merch y melinydd, ond dydy hi ddim yn ei ffansïo fe yn anffodus! Cawn ddilyn hynt emosiynol y crwydryn yn y caneuon, o entrychion serch a hapusrwydd i ddyfnderoedd anobaith llwyr un a gafodd ei wrthod.

5. 'Am Feierabend' (Wedi i Waith y Dydd Orffen)

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Teiran

❍ **Strwythur**

1-7	8-25	26-59	59-78	78-89
Rhag Piano	**Adran A** Llais a Phiano	**Adran B** Llais a Phiano	**Adran A** Llais a Phiano	**Coda** Llais a Phiano

❍ **Gwead**
- Ysgafn
- Cyfeiliant cordiol

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: A leiaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
E fwyaf (llywydd) – barrau 12-15
A fwyaf (tonydd mwyaf) – barrau 16-24
C fwyaf (perthynol mwyaf) – barrau 26-40
D leiaf (is-lywydd lleiaf) – barrau 41-44

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig arpeggiaidd/toredig, e.e. barrau 7-26 (cyfeiliant llaw dde)
- 7fed ar y llywydd (gwrthdro cyntaf) – bar 9
- Mwyaf a lleiaf (safle gwreiddiol a gwrthdro cyntaf) – bar 1

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddebau: Perffaith – barrau 14-15; 23-24; 45; 58-59; 88-89
  Amherffaith – bar 37
- Ailadrodd – barrau 16-19
- Dilyniant – barrau 37-43
- Anacrwsis – barrau 7; 37; 60
- Ostinati – barrau 7-8 (llaw dde)
- Pedal – barrau 46-51; 78-87
- Tonydd mwyaf i'r tonydd lleiaf – barrau 24 a 25
- Nodau tonnog cromatig – bar 8 (G# – llais); bar 52 (E♭ – llais)

❍ **Offeryniaeth**
- Unawd i ddynion/Tenor
- Piano

❍ **Score indications**
Ziemlich geschwind: Eithaf cyflym
Etwas geschwinder: Rhywfaint yn gynt
f (forte): uchel
p (piano): tawel
pp (pianissimo): tawel iawn
sf (sforzando): acennu cryf
decresc. (decrescendo): tawelu

Pwyntiau diddorol

- Wilhelm Müller oedd enw'r bardd.
- Amser cyfansawdd $\frac{6}{8}$
- Arddull gordiol agoriadol y cyfeiliant – barrau 1-4.
- Harddwch yr alaw delynegol lefn – barrau 16-17.
- Lliwiau a dilyniannau harmonig sensitif gydol y gân.
- Ymweliadau byr â chyweiriau perthynol (gweler '**Enghreifftiau o drawsgyweirio**' uchod).
- Cyfeiliant annibynnol Schubert i'r Piano.
- Gwrthgyferbyniadau gwych sy'n gweddu i awyrgylch y farddoniaeth.
- Roedd yn well gan Schubert ddefnyddio'r Piano na'r Harpsicord, oherwydd bod y Piano'n gallu cynnig mwy o liw, tensiwn dramatig ac effeithiau dynameg.
- Cyfeiliant hanner cwaferi cyffrous – barrau 7-25; 59-82.
- Hoffter Schubert o amrywio hyd brawddegau, e.e. barrau 8-19. Mae brawddegau 4x4 bar yma, ond eto mae'r adran yn gorffen â brawddeg 5 bar (barrau 20-24).

- Ei hoffter o adleisio diwedd brawddeg leisiol yn y cyfeiliant, e.e. barrau 39-40; 43-44; 85-86 (llaw chwith y Piano).
- Defnydd helaeth o gord y 7fed ar y llywydd pan fydd y geiriau yn cyfeirio at flinder a siomedigaeth (barrau 28-31 – 'How weak my arms are!'). Roedd y crwydryn ifanc yn orawyddus i greu argraff ar ferch y melinydd â'i gryfder corfforol, er mwyn ceisio ennill ei serch.
- Mae'r adran ganol (bar 26 ymlaen) wedi'i seilio ar ddilyniannau cordiol a ddaeth o arddull agoriadol y rhagarweiniad.
- Cymharwch rhythmau 8fedau llinell y bas ym marrau 7-26 â barrau 59-69.
- Newid rhythmig yn rhythmau llinell y bas (ar y curiad) – barrau 26-36.
- Llai o densiwn ym marrau 46-58 ag arddull adroddgan (y teulu'n ymlacio o amgylch y tân wedi diwrnod caled o waith).

❍ **Gwybodaeth bellach**
www.lieder.net

❍ **Cyfieithiad Saesneg o'r geiriau**

Wedi i Waith y Dydd Orffen

A (barrau 8-24; 61-85)
If I had a thousand arms to move!
I could drive the wheels with a roar!
I could blow through all the copses!
I could turn all the millstones!
Then the miller's daughter could sense my true purpose!

B (barrau 26-59)
Oh, how weak my arms are! What I lift, what I carry,
What I cut, what I hammer, any fellow can do as well.
And there I sit among all the others in the quiet, cool time of rest,
And the master says to all of us: I am pleased with your work,
And the lovely maiden said 'Goodnight' to everyone.

6. 'Der Neugierige' (Yr Holwr)

Elfennau cerddorol

❍ **Strwythur**

1-4	5-20	23-32	33-41	43-52	53-55
Rhag 4 bar Piano	**Adran A** 4+4+4+4 Llais a Phiano	**Adran B** 4+4+2 Llais a Phiano	**Adran C** 3+3+3 Llais a Phiano	**Adran B** 4+4+2 Llais a Phiano	**Coda** 4 bar Piano

❍ **Gwead**
- Ysgafn
- Cyfeiliant cordiol

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: B fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
F# fwyaf (llywydd) – barrau 11-12; 19-20
B leiaf (tonydd lleiaf) – barrau 25; 45
G fwyaf (is-lywydd meddal) – barrau 37-38

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig arpeggiaidd/toredig, e.e. barrau 23-33
- 7fed ar y llywydd $\frac{6}{5}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 26
- Mwyaf a lleiaf, e.e. bar 33 – F# fwyaf $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf)
- Dilyniant cromatig – bar 50 (llinell fas)

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddebau: Perffaith – barrau 19-20; 31-32; 40-41
- Ailadrodd brawddegau – barrau 5-8; 13-16
- Anacrwsis – barrau 4; 22
- Pedal – barrau 23-25; 52-55
- Nodau tonnog is – yr alaw leisiol – barrau 5; 13
- Appoggiatura – barrau 31; 39 (llais)
- Nodau camu acennog – barrau 33-34 (llais)
- Nodau rhagdraw – barrau 29-30; 31-32 (llais)

❍ **Offeryniaeth**
- Unawd i ddynion/Tenor
- Piano

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Langsam: Araf
Sehr langsam: Araf iawn

Pwyntiau diddorol

- Wilhelm Müller oedd enw'r bardd.
- Ffigurau hanner cwaferi'n creu effaith murmur y nant – barrau 23-32.
- Newid o 2 (syml deublyg) i 3 (syml triphlyg) ym mar 23.
  4 4
- Cyfeiliant trawsacen – barrau 5-10.
- Arddull yr adroddgan leisiol – bar 33.
- Dilyniannau cromatig harmonig – barrau 9-10; 46 (cyfeiliant, nodyn tonnog is cromatig – E# yn y bas); 49-50.
- Ei hoffter o adleisio diwedd brawddeg leisiol yn y cyfeiliant – barrau 51-52 (llais) ag ychwanegiad – barrau 52-53 (Piano).
- Trawsgyweirio i gyweiriau pell, yna dychwelyd yn gyflym i'r tonydd – barrau 41-43.

❍ **Gwybodaeth bellach**
www.lieder.net

❍ **Cyfieithiad Saesneg o'r geiriau**

Yr Holwr

A (barrau 5-20)
I don't ask any flower, I don't ask any star,
None of them can tell me what I'd like to know so much.
I am not a gardener, the stars are too far above;
I'll ask my little brook if my heart has deceived me.

B (barrau 23-32)
Oh, little brook of my love, why are you so silent today?
I only want to know one thing, one word, one way or the other.

C (barrau 33-41)
Yes, is the one word, the other is No.
The two words together make up my entire world.

B ((barrau 43-52)
Oh, little brook of my love, how strange you are!
If you won't say anything further, tell me, little brook, does she love me?

7. 'Ungeduld' (Rhwystredigaeth)

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Stroffig – 4 pennill

❍ **Strwythur**

1-8	9-18	19-26/27
Rhag Piano	**Penillion 1, 2, 3, 4** Llais a Phiano. 5 brawddeg fer: barrau 9-10; 11-12; 13-14; 15-16; 17-18	**Cytgan**

❍ **Gwead**
- Ysgafn a rhythmig yn y penillion
- Dwysach yn y cytgan

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: A fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
E fwyaf (llywydd) – barrau 3; 22-23
E leiaf (llywydd lleiaf) – barrau 4-5
B leiaf (uwch donydd lleiaf) – barrau 10-11; 15-16

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Mwyaf a lleiaf, safleoedd gwreiddiol a gwrthdroadau
- 7fed ar y llywydd – barrau 8; 24
- 7fed cywasgedig – barrau 21-22
- Dilyniannau cromatig – barrau 12; 15

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddeb: Perffaith – barrau 8-9
- Dilyniant – barrau 2-3 a 5-6; 9-10 ac 11-12
- Anacrwsis – pob cydiad lleisiol – barrau 9-18 ('curiad i fyny' hyd at far 9)

❍ **Offeryniaeth**
- Unawd i ddynion/Tenor
- Piano

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Etwas geschwind: Eithaf cyflym
fp (fortepiano): uchel, yna'n dawel
fz (forzato): gwthio'r sain
ll: **:ll** : ailadrodd

Pwyntiau diddorol

- Wilhelm Müller oedd enw'r bardd.
- Amser syml triphlyg, ond $\frac{9}{8}$ wrth berfformio.
- Sylwch sut mae rhythmau dot yn y llinell leisiol yn ychwanegu at gymeriad y gân.
- Llinell felodig yn rhagarweiniad llaw dde'r Piano – barrau 1-8.
- Tensiwn cynyddol yn y cytgan wrth i'r crwydryn ddatgan ei gariad at ferch y melinydd – tessitura uchel (traw) y llinell leisiol.
- Llawer o symudiadau fesul cam yn llinell alawol y penillion.
- Ymweliadau byr iawn â chyweiriau pell (gweler '**Enghreifftiau o drawsgyweirio**' uchod).
- Awyrgylch hapus a dyrchafol – y crwydryn yn datgan ei gariad.
- Mae rhythm y llinell leisiol yr un peth yn union ym mhob pennill.
- Mae rhythm y cyfeiliant yn dilyn yr un patrwm ym mhob pennill.
- Mae'r motiff llaw chwith agoriadol yn cael ei ailadrodd mewn dilyniant.
- Tripledi llaw dde'r rhagarweiniad mewn cyfyngau o 3ydd a 6ed gan mwyaf.
- Gwead y cyfeiliant yn dwysáu ym marrau 7-8, wrth groesawu'r cydiad lleisiol.
- Gwead y cyfeiliant yn rhythmig ysgafnach yn y penillion.
- Cau'n homoffonig – diweddeb perffaith.

❍ **Gwybodaeth bellach**
www.lieder.net

❍ **Cyfieithiad Saesneg o'r geiriau**

Rhwystredigaeth

Pennill 1
I'd like to carve it in the bark of every tree,
I'd etch it into every pebble,
I'd sow it in every new-tilled field,
With cress seeds that would show it quickly,
I'd gladly write it on every blank sheet of paper:
Cytgan
My heart is yours and will ever remain so.

Pennill 2
I'd like to raise a young starling,
To speak the words clearly and distinctly,
So that he would speak with the sound of my voice,
With all my heart's intense longing;
Then he'd sing it through her windows:

Cytgan
My heart is yours and will ever remain so.

Pennill 3
I'd like to breathe it into the morning breezes,
I'd like to blow it through the stirring grove;
Oh, if it could only glow from every starry blossom!
If the scent could carry it to her from near and far!
You waves, can you only push wheels?
Cytgan
My heart is yours and will ever remain so.

Pennill 4
I'd swear it must show in my eyes,
Anyone could see it burning on my cheeks,
Anyone could read it on my silent lips,
Every breath proclaims it aloud,
And she doesn't even notice my anxious yearning:
Cytgan
My heart is yours and will ever remain so.

Corelli: Sonata da Camera Op.2, Rhif 7 yn F (Preludio, Allemanda, Corrente, Giga)

Rhagarweiniad

Cyfres o ddarnau byr (suite) yw Sonata da Camera (Sonata Siambr) a gafodd ei chyfansoddi yn yr un cywair i gyd, ac sy'n addas i ddawnsio iddi. Fel arfer mae'r sonata yn dechrau gyda 'Preliwd' sy'n fath o baratoad ar gyfer y symudiadau eraill, 'Allemanda', 'Corrente' a 'Giga'.

Caiff yr enw Sonata Drio ei roi arnynt oherwydd eu bod wedi'u sgorio ar dri erwydd ar gyfer Ffidil 1, Ffidil 2 a Soddgrwth, ond mae angen 4 chwaraewr i'w perfformio. Roedd y chwaraewr Harpsicord druan yn cael ei gymryd yn ganiataol braidd a chât e mo'i gyfrif. Byddai'n darllen y bas rhifolog oddi ar yr un erwydd â rhan y Soddgrwth. Y Sonata Drio oedd sail y Concerto Grosso (darllenwch nodiadau Brandenburg Bach).

Feiolinydd a chyfansoddwr cerddoriaeth Baróc o'r Eidal oedd Corelli (1653-1713), ac ysgrifennodd dros 48 o Sonatau Trio.

Preludio

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Dwyran addasedig

❍ **Strwythur**

1-4	5-8	9-16	17-22
A1 Cywair y tonydd – F fwyaf. Gorffen â diweddeb amherffaith.	**A2** Cywair y llywydd – C fwyaf. Gorffen â diweddeb amherffaith.	**B1** Motiff yn disgyn trwy'r raddfa o A. Gorffen â diweddeb perffaith.	**B2** Soddgrwth (bar 17) yn ailadrodd bar 3. Gorffen â diweddeb perffaith.

❍ **Gwead**
- Gwrthbwyntiol, e.e. barrau 9-10

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: F fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio :
C fwyaf (llywydd) – barrau 5; 13
D leiaf (perthynol lleiaf) – bar 16

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- Llywydd $\begin{matrix}5\\3\end{matrix}$ (safle gwreiddiol) – bar 4
- Uwch donydd $\begin{matrix}6\\3\end{matrix}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 17^3
- 7^{fed} ar y llywydd $\begin{matrix}7\\5\end{matrix}$ (safle gwreiddiol) – bar 21^3

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Gohiriannau: 7-6 – barrau 9-10
  9-8 – barrau 18-19
- Lleihad o'r motiff agoriadol – barrau 18-19
- Nodau camu – bar 9 (Soddgrwth)
- Nodau arpeggio – bar 13 (Soddgrwth)
- Diweddebau: Perffaith – bar 13 (C fwyaf); bar 22 (F fwyaf)
  Amherffaith – bar 4 (F fwyaf)
- Dilyniant – bar 9 (Soddgrwth)

❍ **Offeryniaeth**
Violino: Ffidil
Violone: Soddgrwth
Cembalo: Harpsicord

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**

Bas Rhifolog/Continuo: math o law-fer gerddorol, neu chwarae yn ôl y rhifau, oedd yn boblogaidd â grwpiau cerddorfaol bychain, yn enwedig yn y cyfnod Baróc. Y chwaraewr wrth y seinglawr fyddai'n cwblhau'r harmonïau yn ôl y rhifau o dan allwedd y bas – yr enw gafodd ei roi ar y sgìl hwn oedd traws-seinio (*realize*), sef trosi ffigurau a symbolau i mewn i seiniau. Dyma rai o'r ffigurau/symbolau mwyaf cyffredin gafodd eu defnyddio gan Corelli ac eraill:

$\begin{matrix}5\\3\end{matrix}$ – safle gwreiddiol y cord (nid yw hwn wedi'i ysgrifennu bob amser)

6 – gwrthdro cyntaf y cord

$\begin{matrix}6\\4\end{matrix}$ – ail wrthdro'r cord

\# – codwch drydydd nodyn y cord i fyny hanner tôn

43 – gohiriant

7 – cord y 7^{fed}

$\begin{matrix}6\\5\end{matrix}$ – gwrthdro cyntaf cord y 7^{fed}

Pwyntiau diddorol

- Ystod felodig gyfyngedig ar gyfer pob rhan.
- Tempo *Adagio*.
- Ffidlau 1 a 2 yn gorgyffwrdd – barrau 11-12.
- Bas yn 'cerdded' yn gyson – barrau 12-17.
- Efelychiant rhwng Ffidil 1 a 2, yn defnyddio'r motiff agoriadol – barrau 14-15.
- Prin iawn oedd y cyfarwyddiadau dynameg mewn cerddoriaeth Baróc.
- Dim ailadrodd yn y Preliwd.
- Efelychiant a deialog gerddorol gydol y Preliwd.
- Annibyniaeth rhan y continuo bas.
- Ystod dda o eirfa harmonig.

Allemanda

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Dwyran

❍ **Strwythur**

1-14	15-27
A F fwyaf Caiff y motiff arpeggio rhythmig agoriadol ei ailadrodd mewn efelychiant yn y Soddgrwth (bar 2). Brawddegau 4 bar o hyd yn gorffen â diweddeb perffaith – bar 8 yn y llywydd a bar 14 yn y tonydd. Effaith adleisiol. Gorffen â diweddeb perffaith.	**B** F fwyaf Caiff y motiff rhythmig agoriadol (Soddgrwth a Ffidil 2) ei ailadrodd yn tutti ac mewn efelychiant. Mae'r diweddeb olaf yn achosi'r un effaith adleisiol. Mae rhan y Soddgrwth yn fwy amlwg ac yn fwy blodeuog yma. Gorffen â diweddeb perffaith.

❍ **Gwead**
- Llyfn
- Gwrthbwyntiol – barrau 20-21

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: F fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
C fwyaf – bar 9
D leiaf – bar 18

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- Tonydd $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 12^{2}
- Tonydd $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 2^{4}
- Ail wrthdro $\frac{6}{4}$ – bar 19^{3}
- 7^{fed} ar y llywydd – barrau 8^{1}; 23^{3} (7^{fed} nodyn yn esgyn yma)

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddeb: Perffaith (yn y tonydd) – bar 5
- Dilyniant: disgynedig – barrau 10-11 (Soddgrwth)
- Dilyniant: esgynedig – barrau 22-23
- Gohiriannau – bar 25^{3-4}

❍ **Offeryniaeth**
Violino: Ffidil
Violone: Soddgrwth
Cembalo: Harpsicord

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Bas Rhifolog/Continuo (gweler y Preliwd)

Pwyntiau diddorol

- Tempo *Allegro*.
- Bywiog a rhythmig.
- Amser cyffredin – $\frac{4}{4}$
- Prin iawn oedd y cyfarwyddiadau dynameg mewn cerddoriaeth Baróc.
- Caiff adrannau A a B eu hailadrodd.
- Annibyniaeth rhan y continuo bas.
- Bas yn 'cerdded' yn gyson – barrau 5^{3}-7.
- Cyfyngau eang o 8^{fedau} a 10^{fedau} yn y Ffidlau.
- Effaith adleisiol/ailadrodd ar ddiwedd adrannau – barrau 12-14; 25-27.
- Gallwch hefyd weld yr effaith adleisiol yn concerti Vivaldi – roedd yntau'n ddisgybl i Corelli ar un adeg.
- Defnydd o allwedd y tenor i'r Soddgrwth – bar 15.
- Ffidlau 1 a 2 yn gorgyffwrdd – barrau 8; 18.
- Cyfyngau disgynedig o 7^{fedau} yn yr alaw ar ddiweddebau – barrau 24^{4}-25.

Corrente

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Dwyran

❍ **Strwythur**

1-20	21-40
A F fwyaf Mae'r motiff rhythmig yn Ffidil 1 yn ymddangos nifer o weithiau ym mhob un o'r 3 offeryn. Effaith adleisiol yn y 6 bar olaf. Gorffen â diweddeb perffaith.	**B** F fwyaf Agoriad homoffonig am 3 bar, yn trawsgyweirio dros dro i C fwyaf a D leiaf. Effaith adleisiol yn y 6 bar olaf. Gorffen â diweddeb perffaith.

❍ **Gwead**
- Tenau
- Homoffonig

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: F fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
C fwyaf (llywydd) – barrau 7; 11
D leiaf (perthynol lleiaf) – bar 27

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- Tonydd $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 1^{1}
- Tonydd $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 2^{1}

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddebau: Perffaith – bar 27 (D leiaf)
  Syrpreis (V-VI) – bar 17
  Amherffaith – bar 6
- Dilyniannau – barrau 7-10 (Ffidil 1); barrau 27-30 (Soddgrwth)
- Gohiriant 7-6 – bar $2^{2\text{-}3}$ (Ffidil 2)

❍ **Offeryniaeth**
Violino: Ffidil
Violone: Soddgrwth
Cembalo: Harpsicord

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Bas Rhifolog/Continuo (gweler y Preliwd)

Pwyntiau diddorol

- Amser triphlyg.
- Mae'r motiff rhythmig dot agoriadol yn ymddangos bron ym mhob bar, ond ddim bob amser ar yr un curiad yn y bar.
- Allwedd y tenor (Soddgrwth) – barrau 31-34.
- Ailadrodd barrau 14^3-20 yn union yr un peth ym marrau 34^3-40.
- Caiff adrannau A a B eu hailadrodd.
- Nifer o fannau diweddebol.
- Soddgrwth yn chwarae motiff dot ac yn cael llinell fwy annibynnol.
- Roedd Corelli yn hoff o ddefnyddio rhythmau Hemiola, e.e. barrau 21-23, wrth gyfansoddi y math yma o ddawns lle mae'r amser triphlyg 123,123 yn rhoi'r argraff ei fod mewn amser dyblyg 12,12,12.

Giga

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Dwyran

❍ **Strwythur**

1-34	35-73
A Agoriad bywiog rhythmig efelychiadol rhwng Ffidil 1 a'r Soddgrwth. Trawsgyweirio i'r llywydd ym mar 18, cyn dychwelyd i ddiweddeb perffaith yn F ym mar 34.	**B** Agoriad efelychiadol cyn y daw Ffidil 1 yn ôl unwaith eto i gael holl sylw alawol y darn. Trawsgyweirio dros dro i gyweiriau newydd. Deialog mewn dilyniant rhwng Ffidil 1 a'r gweddill. Gorffen â diweddeb perffaith yn y tonydd.

❍ **Gwead**
- Llyfn

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: F fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
D leiaf (llywydd lleiaf) – bar 45
G leiaf (uwch donydd) – bar 49

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- Tonydd $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 4
- Tonydd $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 23
- Tonydd $\frac{6}{4}$ (ail wrthdro) – bar 72[1]
- 7fed ar y llywydd – bar 65

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddebau: Perffaith (yn y tonydd) – bar 10
  Perffaith – bar 18
- Dilyniant – barrau 58-65 (Ffidil 1)
- Nodau tonnog (is) – bar 21 (Ffidil 1 & 2)
- Nodau camu mewn 3yddau – bar 27 (Ffidil 1 & 2)
- Nodau camu (gwrthsymud) – bar 46 (Ffidil 1 & 2)

❍ **Offeryniaeth**
Violino: Ffidil
Violone: Soddgrwth
Cembalo: Harpsicord

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Bas Rhifolog/Continuo (gweler y Preliwd)

Pwyntiau diddorol

- Roedd y rhan fwyaf o gyfresi cerddorfaol Baróc yn gorffen â Gigue (cymharer J. S. Bach).
- Caiff adrannau A a B eu hailadrodd.
- Dawns fywiog (*Allegro*) yw'r Gigue.
- 3 yw amser y Gigue hwn, sef un curiad yn y bar.
  8
- Allwedd y tenor (Soddgrwth) – barrau 11-13; 35-36.
- Cyfansoddiad *moto perpetuo* – h.y. symudiad di-dor sy'n defnyddio nodau o'r un hyd (cwaferi) fel arfer.
- Ffidil 1 yw'r prif ran ar wahân i'r man lle mae'n gorgyffwrdd â Ffidil 2.
- Rhannau Ffidil 1 & 2 yn gorgyffwrdd – barrau 19-24; 42-44.
- Mae gan y Soddgrwth ran sy'n fwy cynhaliol yn y ddawns hon â nodau crosietau dot – barrau 37-57.
- Caiff y motiff agoriadol yn Ffidil 1 ei ailadrodd mewn efelychiant gan y Soddgrwth.
- Alaw y Ffidil yn cynnwys nodau arpeggio a nodau camu gan mwyaf.
- Barrau 29-34 (diwedd adran A) yn cael eu hailadrodd ym marrau 68-73 (diwedd adran B).
- Deialog rhwng Ffidil 1 a Ffidil 2 & Soddgrwth – barrau 58-65.

Beethoven: Pedwarawd Llinynnol yn B♭ Op. 18, Rhif 6, Symudiad 1af

Rhagarweiniad

Lluniodd Beethoven, un o gyfansoddwyr mwyaf chwyldroadol y byd cerdd, weithiau amrywiol – gan gynnwys agorawdau, symffonïau, gweithiau corawl, sonatau i'r piano ac un opera. Er gwaethaf ei fyddardod parhaol, cyfansoddi ar gyfer pedwarawdau llinynnol yn unig a wnaeth Beethoven yn ystod tair blynedd olaf ei fywyd. Ysgrifennodd 17 o bedwarawdau llinynnol i gyd. Cafodd y pedwarawd hwn, Op. 18, rhif 6, ei gyfansoddi ym 1799. Er y cyfeiriadau mynych tuag ato fel cyfansoddwr 'Clasurol', mae Beethoven yn cael ei ystyried yn un o ragflaenwyr y cyfnod Rhamantaidd ac yn sicr yn gyfansoddwr o flaen ei amser, oherwydd y teimlad a'r mynegiant sydd yn ei gyfansoddiadau.

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Sonata

❍ **Strwythur**

1-91	91-174	175-265
Dangosiad A	**Datblygiad** B	**Ailddangosiad** A

❍ **Gwead**
- Llyfn
- Homoffonig (2il destun) – barrau 45-47; 88-89
- Dwys gan mwyaf – barrau 210-213

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: B♭ fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
Dangosiad
F fwyaf – bar 44
F leiaf (llywydd lleiaf) – barrau 49; 59-60
A♭ (nodyn arweiniol meddal) – bar 56

Datblygiad
D fwyaf (meidon) – bar 102
G leiaf (perthynol lleiaf) – bar 110
E♭ fwyaf (is-lywydd) – bar 127

❍ Harmoni

Cordiau:
- Tonydd: B♭ fwyaf (safle gwreiddiol) – bar 1
- G leiaf (safle gwreiddiol) – bar 248
- Llywydd $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 64
- 7fed ar y llywydd (gwrthdro cyntaf) – bar 65
- 7fed cywasgedig – barrau 74; 247
- Llywydd $\frac{6}{4}$ (ail wrthdro) – bar 78
- 7fed ar y llywydd (trydydd gwrthdro) – bar 55^3

❍ Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi
- Diweddebau: Perffaith – barrau 79-80
  Amherffaith – barrau 12-13
- Pedal – barrau 33-39 (Soddgrwth)
- Dilyniant – barrau 53-56; $57\text{-}60^2$
  – barrau $131^4\text{-}137^2$ (Ffidil 1)
- Efelychiant – bar 113 (Soddgrwth); bar 115 (Fiola); bar 117 (Ffidil 2)
- Tagiad dwbl (2 nodyn yn cael eu chwarae ar yr un pryd) – barrau 85 & 110 (Fiola); bar 102 (Ffidil 1 & 2)
- Appoggiatura ym mar 1 yn cael ei chwarae fel 4 hanner cwafer
- Deialog gerddorol (efelychiant) – barrau 5-9 (Ffidil 1 a Soddgrwth)
- Gwrthsymud – bar 40 (Soddgrwth a Ffidil 1 & 2)
- Nodau tonnog is – barrau 68-69 (Soddgrwth, Fiola & Ffidil 2)
- Effaith trawsacen – barrau 71-74
- Rhannau yn codi trwy'r raddfa – barrau 32-41; 113-139
- Adrannau homoffonig wedi'u seilio ar arpeggi – bar 92
- Appoggiature yn cael eu chwarae ar y Fiola a'r Ffidil – bar 47
- Dilyniant cromatig: F fwyaf i G leiaf – barrau 100-102 (adran y datblygiad)
- Yr enw a gaiff ei roi ar y cord cromatig ym mar 101 yw'r 6ed Ffrengig (nodau E♭-G-A-C#)

❍ Cyfeiriadau'r sgôr
Violino I: Ffidil 1
Violino II: Ffidil 2
Viola: Fiola
Violoncello: Soddgrwth

Allegro con brio: Cyflym ac egnïol
fp (fortepiano): distewi'n sydyn ar ôl sain uchel
cresc. (crescendo): cynyddu'r sain yn raddol
sf: acennu'n gryf
p (piano): tawel
pp (pianissimo): tawel iawn
decresc. (decrescendo): tawelu'r sain yn raddol
tr. (trill): ailadrodd cyflym rhwng nodyn a'r un uwchben neu oddi tano iddo, fel arfer hanner tôn neu dôn cyfan.
𝄵 (amser cyffredin rhanedig): caiff y cyfansoddiad ei ysgrifennu fel 4 curiad crosiet i'r bar, ond caiff y perfformiad ei chwarae/arwain â 2 guriad i'r bar.

Pwyntiau diddorol

- Thema testun 1 yn cynnwys brawddegau byr arpeggi.
- Defnydd helaeth o frawddeg appoggiatura 4 nodyn (anacrwsis) testun 1 yn adran y datblygiad, e.e. barrau 93^{4}-106.
- Caiff y diddordeb alawol ei ddosrannu rhwng pob chwaraewr, nid i Ffidil 1 yn unig.
- Deunydd newydd yn y bont yn adran yr ailddangosiad (barrau 198-205) sydd heb ymddangos o'r blaen yn adran y dangosiad.
- Amser cyffredin deublyg $\frac{4}{4}$ – y curiad yw 2 yn y bar mewn gwirionedd.
- Fiola yn defnyddio allwedd yr alto (C yw'r drydedd linell ar yr erwydd), ac wedi'i thiwnio 8^{fed} yn uwch na'r Soddgrwth.
- Dychweliad testun 2 yn adran yr ailddangosiad (bar 217) yn y tonydd ac nid yn y llywydd fel yn adran y dangosiad gynt (fel y byddech yn ei ddisgwyl).
- Cyfnewid rhwng y mwyaf a'r lleiaf yn yr 2^{il} destun – barrau 44-62 (dangosiad) a barrau 217-227 (ailddangosiad).
- Roedd gan Beethoven bob amser farciau ailadrodd yn ei waith ar ddiwedd adran y dangosiad, a dyma oedd yr arferiad yn y cyfnod clasurol.
- Sylwch ar y marciau ailadrodd ym mar 264 sy'n dweud wrth y chwaraewyr ddychwelyd i far 92 (adran y datblygiad) a chwarae drwy'r cyfan unwaith eto hyd at y diwedd.
- Er bod tair adran i'r symudiad hwn, mae'r cysylltiad hanesyddol â'r ffurf **ddwyran** yn amlwg iawn, wrth ailadrodd adran y dangosiad (A) ac wrth ailadrodd adran y datblygiad/ailddangosiad (B). Heddiw, fodd bynnag, mae ailadrodd adran y datblygiad/ailddangosiad (B) yn cael ei hepgor wrth berfformio.

Brahms: Sonata i'r Clarinét yn E♭ Op. 120, Rhif 2, 3ydd Symudiad

Rhagarweiniad

Cafodd y sonata hon ei chyflwyno i'r clarinetydd enwog, Richard Mühlfeld, a'i pherfformio am y tro cyntaf yn Fienna ym 1895, a chael clod mawr gan y beirniaid. Ysgrifennodd un beirniad, 'Does dim defnydd mwy seingar ar ffurf yr amrywiad na'r un sydd yn symudiad olaf y sonata hon.'

Ar gyfer y 3ydd symudiad, yr olaf yn y sonata hon, mae Brahms wedi defnyddio *ffurf thema ac amrywiadau* fel strwythur. Cyfres o 5 amrywiad sydd yma ar thema arbennig. Mae rhan y clarinét yn ein sgôr wedi'i hysgrifennu yn C a does dim angen felly i ni drawsgyweirio.

Roedd Brahms yn hoff iawn o ffurf yr amrywiadau, a hwyrach eich bod yn gyfarwydd â'i ddarn, *Amrywiadau St Anthony i Gerddorfa*. Efallai fod rhai ohonoch eisoes wedi defnyddio ffurf thema ac amrywiadau yn eich cyfansoddiadau. Os na, rhowch gynnig arni wedi i chi astudio'r gwaith hwn.

Ffurf y 3ydd Symudiad – Thema ac Amrywiadau

1-14	15-28	29-42	43-56	57-70	71-97	98-153
Thema	**Amryw. 1**	**Amryw. 2**	**Amryw. 3**	**Amryw. 4**	**Amryw. 5**	**Coda**

Thema (barrau 1-14)

Elfennau cerddorol

❍ **Strwythur**
4+4+2+4

Barrau 1-4	Barrau 5-8	Barrau 9-10	Barrau 11-14

❍ **Gwead**
- Llyfn
- Homoffonig – barrau 2-4
- Dwys yn y Piano – barrau 9-10

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: E♭ fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
G leiaf (meidon leiaf) – bar 10^3

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- Tonydd $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 9^{1}
- Tonydd $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 2^{1}
- 7^{fed} ar y llywydd – barrau 6^{6}; 8^{3}; 10^{6}
- 7^{fed} cywasgedig – bar 13^{6}

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddebau: Amherffaith – barrau 4; 8
  Amen – bar 14
- Pedal (llywydd) – barrau 4^{6}-5^{5}
- Dilyniant – barrau 1^{6}-2 (Piano)
- Dilyniant – barrau 1-3 (Clarinét)
- Gohiriant – bar $8^{3,4,5}$ (Piano)

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Andante con moto: Cyflymder cymedrol
poco f (forte): gweddol uchel
calando: arafu a thawelu'n raddol

Pwyntiau diddorol

- Anacrwsis ar ddechrau brawddegau cerddorol.
- Brawddegu.
- Adeiledd y thema yw 4+4+2+4.
- Barrau 3-4 (Clarinét) yn cael eu hailadrodd yn 7-8 (Clarinét).
- Diweddeb: motiff y clarinét sy'n diweddu brawddegau – barrau 4; 8; 13-14.
- 8 bar cyntaf yn gymesur, ond parhau â brawddeg 6 (2+4) bar o hyd (yn hytrach na brawddeg 4 neu 8 bar o hyd).
- Alaw â siâp hyfryd yn perthyn iddi – gosgeiddig a swynol.
- Rhan y Piano yn cynnig cymorth harmonig a lliwgar, ac eto'n annibynnol.
- Defnyddio 8^{fedau} dilynol yn llaw chwith y cyfeiliant piano.
- Cyfoeth cordiol cyfeiliant llaw dde'r Piano.
- Mae brawddegu'r tri cwafer cyfansawdd sy'n dechrau ar yr anacrwsis yn parhau ar draws y bar gan y Clarinét a'r Piano.
- Mae nifer o symbolau *cresc.* a *decresc.* (< >) yng nghyfansoddiadau Brahms, a hynny yng nghyd-destun y cyfnod Rhamantaidd y bu'n byw ynddo.
- Caiff Brahms ei ystyried yn bont rhwng y cyfnod Clasurol a'r Rhamantaidd.

Amrywiad 1 (barrau 15-28)

Elfennau cerddorol

❍ **Gwead**
- Gwrthbwyntiol
- Tenau ar adegau, e.e. barrau 15-18 (Piano)

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: E♭ fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio
G leiaf (meidon leiaf) – bar 24^{5}

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- Cromatig – bar 25
- 7^{fed} cywasgedig – bar 24^{6}
- 7^{fed} ar y llywydd – bar 25^{1}

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddebau: Amherffaith – bar 22
  Perffaith – bar 28^{5}
- Pedal (llywydd) – bar 19
- Gohiriant – bar 22^{4} (llaw dde'r Piano)
- Dilyniant – barrau 18^{6}-19^{5} (Piano)

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
dolce: yn felys
sost. (sostenuto): dal allan (legato)
poco f (forte): ychydig yn uwch

Pwyntiau diddorol

- Yn llawn dychymyg.
- Cafodd hyd gwreiddiol nodau'r thema eu newid, ond mae'r un brawddegu ar draws y bar yn aros. Mae rhan y Clarinét nawr yn debyg i fersiwn sgerbwd o'r thema wreiddiol.
- Dydy'r anacrwsis (Clarinét a'r Piano) ddim yn dechrau gyda'i gilydd.
- Y strwythur wedi'i addasu: 4 (Tutti) + 4 (Piano) + 2 (Clarinét) + 2 (Piano) + 2 (Clarinét). Yn y thema, mae'r Clarinét yn chwarae am 10 bar.
- Mae'r Piano yn chwarae harmoniau trawsacen (3^{yddau}) mewn efelychiant ag alaw y Clarinét (barrau 15-18), gan greu tensiwn cerddorol.
- Yr acenion croesacen ar y Piano sy'n cynnig y prif ffocws rhythmig ym marrau 15-18.
- Y Piano sy'n cael y sylw ym marrau 19-22, gydag ailddatgan barrau 15-18 (ddim yn drawsacen), ond yr un rhythm syml â rhythm y Clarinét ynghynt ym marrau 15-18. Llai o densiwn cerddorol nawr.

- Motiff diweddebol (barrau 13-14) wedi newid.
- Rhythm llaw chwith y Piano yn ailadrodd rhythm y Clarinét ym marrau 22^{6}-24^{5}.
- Rhythm croesacen yn dychwelyd yn y Piano – barrau 25^{6}-28.
- Strwythur harmonig y thema yn debyg i cynt, fwy neu lai, er bod rhai gwahaniaethau bychain yn yr harmonïau yn yr amrywiad hwn.

Amrywiad 2 (barrau 29-42)

Elfennau cerddorol

❍ **Gwead**
Gweddol ddwys ar y cyfan

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: E♭ fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
G leiaf (meidon leiaf) – bar 38^{5}

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- 7^{fed} cywasgedig – bar 31 (llaw dde'r Piano)
- 7^{fed} ar y llywydd – bar 37^{3} (i'w glywed yn arddull arpeggiaidd a rhannau gwrthsymudol y Piano)
- 7^{fed} ar y llywydd (trydydd gwrthdro) – bar 40^{3} (Piano)

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddebau: Amherffaith – bar 32^{5}
  Syrpreis/Annisgwyl – bar $41^{3,4}$
- Pedal (llywydd) – bar 33
- Gohiriant – bar $32^{4,5}$
- Dilyniant (Clarinét) – barrau 30^{6}-31^{3} (8^{fed} yn is na'r thema)
- Gwrthsymud: arpeggi 16 nodyn – bar 37 (Piano)

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
molto p (piano) e dolce: tawel iawn ac addfwyn

Pwyntiau diddorol

- Ysgogol a bywiog.
- Strwythur harmonig y thema yn debyg i cynt, fwy neu lai, er bod rhai gwahaniaethau bychain yn yr harmonïau (bar 31).
- Brawddegu gwahanol nawr.
- Hyd gwreiddiol rhai o nodau'r thema wedi'u newid.

- Cyfeiliant tripledi hanner cwaferi'r Piano yn disgyn yna'n esgyn – barrau 29-31.
- Gwrthsymud arpeggiaidd – bar 37.
- Anacrwsis ar y Clarinét 8fed yn is nag o'r blaen.
- Brahms yn archwilio seiniau is y Clarinét.
- Neidio i lawr fesul cyfyngau o 7fedau lleiaf ar y dechrau, yna yn ôl i fyny – bar 29.
- Mae'r Clarinét yn cadw motiff 2 nodyn y thema ar guriadau 3 a 6 ym marrau 29-31, tra bo'r Piano yn chwarae ffigurau tripledi arpeggiaidd.
- Harmonïau'n newid ym mar 31 o'u cymharu â bar 3 y thema.
- Patrwm rhythmig rheolaidd yn llaw chwith y Piano, â chordiau harmonig yn gymorth ar guriadau 2,3 a 5,6 – barrau 29-32.
- Y Clarinét a'r Piano yn cyfnewid ym marrau 33-36. Y Piano'n chwarae'r alaw 8fed yn uwch, a'r Clarinét yn chwarae ffigurau tripledi arpeggiaidd am yn ôl (esgyn ac yna'n disgyn).
- Y Clarinét yn chwarae am 13 bar ac mae cyfeiliant y Piano yr un hyd, ond 1 bar unawdol yn unig y mae'r Piano yn ei chwarae ar ddiwedd yr amrywiad – bar 42.
- Mae'r amrywiad hwn yn dilyn Amrywiad 1 heb doriad/saib (segue).

Amrywiad 3 (barrau 43-56)

Elfennau cerddorol

❍ **Gwead**
Eithaf dwys (ym marrau 49-56)

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: E♭ fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
G leiaf (meidon leiaf) – bar 52^{5}

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- 7fed ar y llywydd $\frac{6}{5}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 46^{1}
- 7fed cywasgedig – bar 49^{2}

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Atebion antiffonïaidd (3 churiad o hyd) rhwng y Clarinét a llaw dde'r Piano – barrau 43-48
- Llaw dde'r Piano yn adleisio curiad blaenorol y Clarinét – bar 49
- Nodau camu – bar 50^{3} (d) (Clarinét)
- Nodau camu cromatig – bar 46 (nodyn olaf)
- Nodau tonnog is (anacrwsis) – b**a**b
- Diweddebau: Amherffaith – barrau 46^{5}; 50^{5}
  Perffaith – bar $56^{3,4}$
- Dilyniant – barrau 46^{6}-47^{3} (Clarinét); bar 47^{2-6} (llaw dde'r Piano)

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
grazioso: gosgeiddig
fp (fortepiano): *diminuendo* sydyn

Pwyntiau diddorol

- Mae'r amrywiad hwn yn dilyn Amrywiad 2 heb doriad/saib (segue).
- Anacrwsis.
- Hwn yw'r amrywiad dwysaf o'r tri cyntaf.
- Y Clarinét a'r Piano yn chwarae ym mhob bar.
- Mwy o bwyslais ar liw'r ddynameg.
- Blodeuog, addurnedig a chromatig iawn.
- Hydoedd gwreiddiol nodau'r thema wedi'u newid yn ddramatig ac wedi'u haddurno'n helaeth.
- Grwpiau'r tripledi nawr wedi'u newid i chwarter cwaferi.
- Deialog gerddorol brysur rhwng y Clarinét a'r Piano – bar 43.
- Angerdd rhythmig (*moto perpetuo*) o far 50 ymlaen.
- Mae'r gerddoriaeth yn aros am ennyd ar derfyn yr amrywiad hwn, fel petai'r gwrandawr a'r perfformwyr angen dal eu hanadl cyn dechrau ar yr amrywiad nesaf.

Amrywiad 4 (barrau 57-70)

Elfennau cerddorol

❍ **Gwead**
Tenau

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: E♭ fwyaf

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- 7^{fed} cywasgedig – bar 64^{6}
- 7^{fed} ar y llywydd $\frac{6}{5}$ – bar 62^{6}
- Dilyniant cromatig – bar 69

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddebau: Amherffaith – bar $64^{4,5}$
  Perffaith – bar 70
- Pedal y tonydd – bar 61 (llaw chwith y Piano)
- Trawsacen rhwng y Clarinét a'r Piano gydol yr amrywiad

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
pp (pianissimo): tawel iawn

Pwyntiau diddorol

- Y Clarinét a'r Piano yn chwarae ym mhob bar.
- Mae'r amrywiad hwn yn symlach o lawer na'r tri arall o ran yr alaw, ond yn llawer mwy cymhleth o ran y mydr fodd bynnag.
- Anacrwsis yn dechrau â chord 7^{fed} ar y Piano.
- Dim ond ychydig o sylfeini harmonig gwreiddiol y thema sydd ar ôl nawr.
- Dim ond ambell awgrym o'r thema wreiddiol sydd ar ôl.
- Awyrgylch breuddwydiol, dynameg addfwyn.
- Tempo araf a llipa.
- Cordiau llaw dde'r Piano.
- Un o nodweddion rhan y Clarinét yw ailadrodd nodyn y llywydd.
- Mae'r alaw yng nghwmpawd is y Clarinét.
- Defnydd effeithiol o nodau clwm yn y ddau offeryn ar ddechrau ac ar ddiwedd y barrau.
- Barrau 57-60; 64^{6}-68^{2} – y ddwy law yn allwedd y trebl (Piano).
- Barrau 60^{6}-64^{5}; 68^{3}-70^{5} – y ddwy law yn allwedd y bas (Piano).

Amrywiad 5 (barrau 71-97)

Elfennau cerddorol

❍ **Gwead**
Gwrthbwyntiol

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: E♭ leiaf (tonydd lleiaf)

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddebau: Amherffaith (B♭ fwyaf) – barrau 78^{1} & 86^{1}
  Amen (E♭ fwyaf) – bar 98
- Gohiriant: 9-8 – bar 87^{1}
- Rhythmau trawsacen – barrau 87-91 (llaw dde a llaw chwith y Piano)
- Gorgyffwrdd diweddebol â'r adran nesaf – barrau 97^{2}-98^{1}

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Allegro: Cyflym
ben marcato: wedi'i acennu'n gryf
sf (sforzando): acen sydyn

Pwyntiau diddorol

- Newid cywair i'r lleiaf (tonydd lleiaf – E♭).
- Hyd y brawddegau wedi dyblu i 8+8+4+8.
- Tempo wedi newid nawr i *Allegro*.
- Arwydd amser wedi newid o'r cyfansawdd i'r syml – $\frac{2}{4}$
- Estyniad o'r motiff diweddebol – barrau 84^{2}-86^{1}.
- Anacrwsis.
- Y rhan fwyaf o nodau llaw dde'r Piano yn hanner cwaferi.
- Prif ffocws yr alaw yn llaw dde'r Piano, gyda rhai mân newidiadau o'r thema wreiddiol.
- Unawd Piano ar ddechrau'r amrywiad hwn, â'r Clarinét ond yn chwarae am 2 far yn y frawddeg gyntaf (barrau 74-76).
- Yn yr un modd, mae'r drydedd a'r bedwaredd frawddeg ar gyfer unawd Piano (barrau 90-95), ar wahân i'r 2 far olaf lle mae'r Clarinét yn ymuno am 2 far yn unig ar ddiwedd yr amrywiad (barrau 96-97).
- Mae'r Clarinét yn atseinio thema wreiddiol y Piano 8^{fed} yn is ym marrau 78-86.
- Mae'r thema ddiweddebol yn llaw dde'r Piano (barrau 96-102) yn rhyddhau'r tensiwn am ennyd.

Coda (barrau 98-153)

Elfennau cerddorol

❍ **Gwead**
- Gwrthbwyntiol
- Blodeuog

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: E♭ fwyaf

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- 7^{fed} cywasgedig (ail wrthdro'r tonydd) – barrau 131-132
- 7^{fed} cywasgedig – barrau 143-146 (Piano)
- 7^{fed} ar y llywydd – bar 114^{2} (Piano)
- Mwyaf $\frac{5}{3}$ – barrau 136^{3}; 151-153
- Lleiaf $\frac{6}{3}$ – bar 136^{1}

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**

- Croesacenion o wahanol rannau o'r thema – barrau 102-104
- Lleihad o'r brif thema yn y Piano (barrau 135-136), yna'r Clarinét (barrau 136-138)
- Harmonïau cromatig yn y Piano a'r Clarinét – barrau 115-118 a barrau 135-136
- Pedal y llywydd – barrau 111^{2}-119
- Diweddeb: Amherffaith – barrau 106-107 (6^{ed} Almaenaidd – V^{7})

❍ **Score indications**

Più tranquillo: Yn dawelach
espress. (espressivo): gydag angerdd/teimlad

Pwyntiau diddorol

- Mae'r coda hwn o'r brif thema bellach yn ganolbwynt y gwaith.
- Mae'r arwydd amser 2 yn aros, ond mae mwy eto o ddefnydd o dripledi.
  4
- Llai o densiwn dros dro – bar 98.
- Datblygiad y thema ddiweddebol – barrau 98-111.
- Defnydd o'r thema ddiweddebol yn y Piano – barrau 98-102.
- Barrau $102\text{-}107^{1}$ – tripledi yn y Piano yn erbyn curiad crosiet y Clarinét.
- Addurniadau meistrolgar, e.e. barrau 127-133, yn y ddau offeryn.
- Ymddangosiad olaf y thema ddiweddebol – barrau 147^{2}-151^{1}.
- Llawer o egni rhythmig a momentwm yn y coda.

Duke Ellington

Rhagarweiniad

Fe greodd Duke Ellington (Edward Kennedy, 1899-1974), mab i fwtler a weithiai yn y Tŷ Gwyn yn Washington, arddull jazzaidd synhwyrus oedd yn cynnwys chwarae byrfyfyr estynedig ac unawdol. Daeth ei harmonïau newidiol a'i liwiau seinyddol gwrthgyferbyniol, gan gynnwys ei chwarae yntau ar y piano, ag ef i sylw'r byd ac i enwogrwydd mawr. Mae'n debyg na ysgrifennodd yr un nodyn o'i gyfansoddiadau i lawr ar bapur – eraill fu'n gwneud hynny. Roedd wrth ei fodd yn potsian gyda'i drefniannau, ac mae sawl fersiwn o'i lwyddiannau yn dal i fod ar gael. Daeth ei drefniant o *Take the A-Train* yn un o *hits* cofiadwy cyfnod yr ail ryfel byd yn Unol Daleithiau America. Ar wahân i *Black and Tan Fantasy*, mae *Mood Indigo* ymysg ei lwyddiannau enwog eraill.

Black and Tan Fantasy

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Melangan 12 bar

❍ **Strwythur**

1-12	13-20	21-28	29-40
A B♭ leiaf. Triawd i'r Trwmped, y Piano a'r Trombôn – dilyniant bychan melanganaidd. Yr un cyweiredd trist â'r 4 bar olaf (dyfyniad o *Marche Funèbre* gan Chopin).	**B** B♭ fwyaf. Unawd Sacsoffon Alto yn dechrau uwchben harmoni G♭7, yna cordiau mwyaf: B♭, E♭, (E♭ leiaf), B♭, C7, F7, B♭. Offerynnau eraill yn cynnal yr harmonïau.	**B** Unawd Sacsoffon Alto – ailadrodd y cyfeiliant heblaw am farrau 27-28, sy'n gorffen ar gord F9 (sy'n arwain at gord B♭ ym mar 29).	**A** B♭ fwyaf. Unawd Trwmped fyrfyfyr gyda llawer o nodau'r felangan ac addurniadau tripledi. Gwead tenau. Cyfeiliant y Piano a'r adran rythm yn unig.

41-52	52-64	65-76	77-86	87-90
A Ailadrodd â'r un cyfeiliant rhythmig $\frac{4}{4}$. Piano yn dechrau unawd ar far olaf yr unawd Trwmped.	**A** Unawd Piano yn yr arddull *stride*, yn cael ei chwarae gan y Duke. Llinell fas gromatig a chord D7 ym mar 59.	**A** Unawd Trombôn yn llawn o effeithiau lliwgar (bar 73), gan ddefnyddio mudydd *plunger*, glissandi, triliau a staccato.	**A** Unawd Trwmped yn defnyddio cwaferi, hanner cwaferi a nodau'r felangan. Cyfeiliant yr adran rythm, heblaw am farrau 64-85 lle mae cyfeiliant tutti.	**Outro** Dyfyniad o'r *Marche Funèbre* gan Chopin yn B♭ leiaf, yn adleisio'r cyweiredd agoriadol trist. Ensemble tutti.

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: B♭ leiaf
- Mwyaf
- Lleiaf
- Nodau trist

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
B♭ fwyaf – bar 13
B♭ leiaf – bar 87

❍ **Harmoni**
- Cyweiraidd
- Diatonig
- Mwyaf
- Lleiaf

Cordiau:
- B♭ leiaf $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 12
- E♭ leiaf $\frac{6}{3}$ – bar 25[3]
- 7[fed] ar y llywydd – bar 18[4]
- F9 – bar 64[4]

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Harmonïau cromatig – barrau 19-20
- Tripledi, e.e. bar 37
- Trawsacen – bar 60 (Piano llaw dde)
- Piano arddull New Orleans (*stride*)
- Nodau'r felangan
- Graddfa'r felangan
- Nid chwarae cwaferi yn union fel y maent ar y sgôr yw arddull jazz, ond dod ag elfen o *swing* i mewn i'r chwarae, e.e. unawd Duke Ellington ar y Piano

❍ **Offeryniaeth**
Ensemble Jazz
Sacsoffon Alto
Sacsoffon Tenor
Trwmped (mudydd *plunger*)
Trombôn
Piano
Bas Llinynnol
Banjo
Cit Drymiau

Pwyntiau diddorol

- Cafodd ei ysgrifennu ym 1929 ar gyfer ffilm fer yn portreadu Duke Ellington a'i fand.
- Mae arlliw o'r emyn Negroaidd yn y cyfansoddiad hwn.
- Dyfyniad o waith Chopin, *Marche Funèbre*, yn y 4 bar olaf.

- Bydd gwybodaeth o raddfa'r felangan yn gymorth wrth astudio'r gwaith hwn.
- Adleisiau o arddull gynnar finimalaidd New Orleans i'w canfod, â'r tempi caeth anhyblyg.
- Cyweiredd yn newid o'r mwyaf i'r lleiaf.

❍ **Gwybodaeth bellach**
www.youtube.com

Take the A-Train

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
- AABA x3
- 32 bar ar ffurf 'cân' wedi'i hailadrodd dair gwaith

❍ **Strwythur**

1-4	5-12	13-20	21-28	29-36
Rhag Dyma'r rhagarweiniad 4 bar enwocaf yn hanes bandiau jazz mawr. Yn seiliedig ar 2 gord â motiff cromatig disgynedig sy'n cael ei ailadrodd yn y llaw dde (yr *A-Train* ar fin gadael gorsaf Efrog Newydd!).	**A** Sacsoffonau yn unsain â'r thema 8 bar (4+4), y ddwy thema yn onglog ac yn drawsacen. Cyfyngau o 6ed esgynedig a 5ed disgynedig. Cyfeiliant trawsacen harmonig gan y Trombonau a'r Trwmpedau â mudyddion.	**A** Ailadrodd, ond bar 12 nawr yn fud. Rhyngweithio rhythmig effeithiol rhwng y Sacsoffonau a'r Pres – rhythmau acennog *sforzando* yma.	**B** Alaw onglog hefyd â chyfyngau o 5ed disgynedig a 7fed mwyaf – cywair F fwyaf. Dim Trwmpedau yn yr adran hon. Trombonau â chyfalaw yn disgyn trwy'r raddfa – barrau 23-36.	**A** Nôl yn y tonydd – C fwyaf. Sacsoffonau â'r alaw eto, ond Trwmpedau (agored) â chyfalaw. Trombonau â harmoniau mewn symudiad homoffonig â'r Trwmpedau. Y Pres i gyd yn symud fesul cam mewn tripledi unsain – bar 36[3,4].

37-44	45-52	53-60	61-68	69-72
A Dim Pres o gwbl ar wahân i'r unawd fyrfyfyr gan Drwmped 4. Cyfalaw homoffonig gromatig yn y Sacsoffonau mewn harmoni.	**A** Adran yn cael ei hailadrodd wrth i'r unawd Trwmped barhau. Gwead yn ysgafnach. Mwy o bwyslais ar yr adran rythmig nawr.	**B** Unawd Trwmped yn parhau a Sacsoffonau'n cynnal yr harmoniau ag un cord ymhob bar. Dim Trombonau.	**A** Prif thema gan y Trwmped unawdol, a Sacsoffonau'n ailadrodd y gyfalaw (barrau 45-48). Sacsoffonau â motiff melangan triadaidd disgynedig.	**Pont** Pres (ond am Drwmped 4) yn chwarae nodau G yna G# yn unsain ar gyfer newid cywair. Ateb antiffoniaidd i'r motiff harmoniaidd 5 nodyn yn y Sacsoffonau.

73-80	81-88	89-96	97-104	105-120	121-30
A Cywair newydd – E♭ fwyaf. Darn 3 bar graddfeuol mewn harmoni yn y Sacsoffonau. Unawd Trwmped 4 ym marrau 76-80. Trwmpedau 1,2,3 a Thrombonau'n fud.	**A** Ailadrodd cyfeiliant cefndirol yn y Sacsoffonau a'r adran rythm. Unawd Trwmped ym marrau 84-88.	**B** A♭ fwyaf. Trombonau i mewn eto â motiff cwaferi esgynedig mewn harmoni, yn cael eu hateb gan dripledi cwaferi yn y Sacsoffonau ym mar 91.	**A** Yn ôl yn E♭ â Sacsoffonau yn unsain ac unawd Trwmped dewisol – sain tutti fawreddog. Cyfeiliant Pres homoffonig â harmonïau byr a bachog.	**A** Ailadrodd yr 8 bar blaenorol (dim newidiadau arwyddocaol, ar wahân i'r ddau far olaf).	**Outro** Uwchben pedal E♭, Drymiau'n llenwi'n fyrfyfyr ac unawd Trwmped. Y band cyfan, heblaw am Drwmpedau 1,2,3, yn chwarae harmonïau yn seiliedig ar gord E♭.

❍ Gwead

- Rhagarweiniad – ysgafn
- Ysgafn wrth gyfeilio i'r unawdau
- Dwys (pawb)
- Adrannol homoffonig (Pres a Chorsennau)

❍ Cyweiredd

- Prif gywair: C fwyaf (ond yn gorffen yn E♭ fwyaf)

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
E♭ fwyaf – bar 73

❍ Harmoni

- Cyweiraidd
- Diatonig

Cordiau:
- Mwyaf
- Lleiaf
- Tonydd $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol), e.e. bar 21
- Tonydd $\frac{6}{4}$ (ail wrthdro) – bar $1^{1,2}$
- 6^{ed} atodol, e.e. barrau 11; 53
- 7^{fed} ar y llywydd – bar 24^{2}
- 9^{fed} mwyaf – bar $40^{3,4}$

❍ Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi

- Themâu onglog â chyfyngau eang
- Bas sy'n 'cerdded' mewn crosietau
- Nid chwarae cwaferi yn union fel y maent ar y sgôr yw jazz, ond dod ag elfen o *swing* i mewn i'r chwarae
- Brawddegau cytbwys, pob un yn 4 bar o hyd

- Dwy brif thema gyferbyniol – A (barrau 5-12) a B (barrau 21-28) – yn cael eu defnyddio gydol y cyfansoddiad
- Motiffau cyfeiliol amrywiol (cromatig) ar ddiwedd adran A
- Elfennau o'r raddfa tonau cyfan yn adran A, gyda chord D7 (â 5ed meddal) ym marrau 7-8
- Pedal – barrau 69-70 (Pres)
- Dilyniannol – barrau 37-40 (Sacsoffonau)
- Dilyniant esgynedig – barrau 70-72 (Sacsoffonau)
- Trawsacen drwyddo draw
- Tair prif adran y band yn gwrthgyferbynnu ar adegau, a hefyd yn cydblethu o bryd i'w gilydd
- Tair adran (Sacsoffonau, Trwmpedau, Trombonau) yn cydchwarae
- Cwaferi cromatig, e.e. bar 18
- Ailadrodd – barrau 69-71 (Sacsoffonau)
- Defnydd o harmonïau clòs yn y Trombonau a'r Trwmpedau

❍ **Offeryniaeth**

5 Sacsoffon (Alto 1,2; Tenor 1,2; Bariton)
4 Trwmped
4 Trombôn (allwedd y bas)
Gitâr Rythm
Piano
Bas Llinynnol
Cit Drymiau

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**

Gliss. (Glissando): Llithryn (Trombonau yn enwedig)
Rubato: dwyn yr amser yma a'i ddychwel acw
Mutes: newid lliw (timbre) y sain
Tacet: Gosteg
Trwmpedau yn B♭
Sax Alto/Bariton yn E♭
Sax Tenor yn B♭
•/• : ailadrodd y bar blaenorol

/ / / / : rhythm strymio (crosiet) ar gyfer y Gitâr

^ ^ ^ ^ : nodau acennog

m: lleiaf
dim: cywasgedig

Pwyntiau diddorol

- Daeth yr *A–Train* yn arwydd-dôn i Duke Ellington a'i gerddorfa.
- Y rhagarweiniad 4 bar yw cerdyn ymweld cerddorol Duke Ellington.
- Cafodd y gerddoriaeth ei hysgrifennu gan Billy Strayhorn, a'i gwaredodd mae'n debyg – ond daethpwyd o hyd i'r gwaith yn y bin sbwriel gan Mercer Ellington, mab Duke!
- Teithio o Efrog Newydd i Harlem wnâi yr *A train* – a'r *D train* i Bronx.
- Cootie Williams yw'r unawdydd Trwmped ar y cryno ddisg. Williams sy'n chwarae gwaith unawdol byrfyfyr gwreiddiol Ray Nance (1941).

- Mae rhan Piano'r Duke yn fyrfyfyr drwy'r darn – dilyn symbolau'r cordiau a wnaeth ar hyd ei oes!
- Arwain o'r Piano fyddai Duke Ellington, fel Count Basie.
- Roedd gan arweinyddion bandiau eraill hefyd ffugenwau â theitlau crand brenhinol, e.e. Joe **King** Oliver, **Count** Basie.
- Mae cymesuredd yn bwysig yn nhrefniannau'r bandiau mawr hyn.
- Mae ffocws yr alaw yn newid yn gyson.
- Mae'r unawd Trwmped wedi'i sgorio nawr, ond yn wreiddiol roedd yn fyrfyfyr.
- Enghraifft ardderchog o arddull *swing* y bandiau mawr.

❍ **Gwybodaeth bellach**
www.youtube.com

Queen

Rhagarweiniad

Mae'r band eiconig hwn yn un o'r bandiau gorau a fu erioed. Daeth eu hanthemau enwog, *We Are The Champions* a *We Will Rock You*, â nhw i sylw'r byd, gan sicrhau eu presenoldeb yn Oriel Enwogion *Rock and Roll*. Pedwar aelod y band oedd Freddie Mercury (Llais a Phiano), Brian May (Gitâr Flaen), John Deacon (Gitâr Fas) a Roger Taylor (Cit Drymiau). Freddie Mercury gyfansoddodd y geiriau a'r gerddoriaeth i'r ddwy gân hon.

'Bohemian Rhapsody'

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Trwy-gyfansawdd

❍ **Strwythur**

1-16	17-42	43-55
Atgan 1 B♭ fwyaf. Agoriad *a cappella* am 4 bar; harmoniau clòs cromatig (arddull siop barbwr). Cyfeiliant Piano ysgafn (bar 5). Lleisiau cefndirol (bar 8). Motiff cromatig pwysig ar y Piano (bar 7). Rhythm y Piano'n dilyn y llinell leisiol gan mwyaf. Gitâr Fas i mewn ym mar 15. Arddull y Piano yn newid ym marrau 15-16 â motiff sy'n parhau hyd at yr atgan nesaf.	**Atgan 2** B♭ fwyaf & E♭ fwyaf. Caiff barrau 17-34 eu hailadrodd (dau bennill). Unawd lleisiol. Ostinati cordiau gwasgar yn llaw chwith y Piano. Mae'r motiff neilltuol (barrau 15-16) yn llaw dde'r Piano yn parhau yn y cyfeiliant. Mae'r Gitâr Fas ar guriad cyntaf pob bar hyd at far 22. Band tutti, ar wahân i'r Gitâr, i mewn ym mar 24. Trawsgyweirio ym mar 25. Drymiau yn cyfeilio i bennill 2 a lleisiau cefndirol o far 25. Llinell fas gromatig gref yn nodweddiadol, e.e. barrau 23-25. O far 29 ymlaen, mae'r unawd Gitâr yn seiliedig ar ddeunydd a ddaw o far 25. Bar 42 yn paratoi'r trawsgyweirio ar gyfer yr atgan nesaf (y D♭ yn newid yn enharmonig i C#, sef trydydd nodyn cord A fwyaf).	**Atgan 3** Piano'n ailadrodd cord A fwyaf am 2 far. Mae'r cordiau'n newid bob yn ail rhwng y mwyaf a'r cywasgedig. Llinell leisiol gromatig. Harmoni yn y lleisiau, ac atebion antiffonïaidd cefndirol. *A cappella* ym marrau 51-52. Gwead homoffonig ysgafnach yn yr atgan hon.

56-83	84-104	105-120
Atgan 4 E♭ fwyaf yn trawsgyweirio i'r llywydd ym mar 61. Deunydd yn dod o'r atgan flaenorol. Arddull galw ac ateb. Galw *a cappella* ac ateb corawl *ff* mewn harmoni â'r band – arddull homoffonig. Mae'r motiff cromatig (gafodd ei chwarae am y tro cyntaf ym mar 7) yn dychwelyd ym mar 62. Arddull leisiol yn newid i gynnwys neidiau alawol eang ym mar 65. Harmonïau cromatig ym marrau 74 a 75. Cwaferi tripledi yn cael eu cyflwyno am y tro cyntaf yn y Bas/Cit Drymiau (bar 83) ar bedal y llywydd.	**Atgan 5** E♭ fwyaf. Arddull wedi newid i roc trwm nawr. Riff â rhythm dot cryf yn y Gitâr (barrau 84-87). Unawd leisiol yn defnyddio rhythm tripledi bar 83, nawr gydag estyniad. Llinell leisiol uchel yn disgyn fesul cam. Cewch glywed dwy unawd Gitâr yn yr atgan hon. Mae'r unawd Gitâr estynedig ym mar 101 yn seiliedig ar agoriad yr atgan hon (barrau 84-87), ac yn gorffen ar gord y 7fed ar y llywydd (B♭).	**Atgan 6** E♭ fwyaf. Motiff hanner cwaferi newydd yn cyhoeddi dechrau'r atgan olaf hon. Mae'r tempo'n arafach o lawer – y Gitâr Flaen sydd â'r alaw, uwchben bas crosiet disgynedig. Cyfeiliant Piano arpeggiaidd o far 110. Arddull leisiol wedi newid eto i arddull faled yn y lleiaf (C leiaf a G leiaf). Meddylgar iawn, yn gorffen â chord A♭ leiaf ym mar 112[4], sy'n tanlinellu tristwch y geiriau. Mae motiff barrau 31-32 yn cael ei ymestyn i mewn i'r codeta ym marrau 114-120 – gan orffen yn F fwyaf.

❍ **Gwead**
- Homoffonig yn bennaf
- Tenau (i ddechrau)
- Dwys (canol, o far 74 ymlaen)

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: B♭ fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
A fwyaf – bar 43
E♭ fwyaf – bar 25
F fwyaf – bar 118

❍ **Harmoni**
- Cyweiraidd
- Cromatig
- Mwyaf
- Lleiaf
- Cywasgedig

Cordiau:
- Is-lywydd $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 105
- Tonydd $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 10[2]
- Llywydd $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 24[1,2]
- D♭ fwyaf $\frac{6}{4}$ (ail wrthdro) – bar 49[1,2]
- 7fed ar y llywydd: C7 – bar 2; F7 – bar 3[1,2]; B♭7 – bar 88[1,2]
- C7 lleiaf – bar 3[3]

- A♭ lleiaf iv – bar 112[4]
- 7[fedau] cywasgedig – barrau 32[1]; 119[3]

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Lleisiau cefndirol – bar 8
- Diweddeb: Perffaith – barrau 100-101
- Harmonïau cromatig, e.e. barrau 32; 63-64
- Ailadrodd – barrau 10 ac 11
- Ysgrifennu enharmonig, e.e. ym mar 56, E♭ fwyaf yw'r cywair, ond D# yw'r nodyn sy'n cael ei ysgrifennu yn y bas
- Newid mydr, e.e. bar 3 – amser $\frac{5}{4}$
- Llinell leisiol ddilyniannol – barrau 80 ac 81
- Unawdau Gitâr – barrau 35-43 (yn seiliedig ar far 25)
- Cyfeiliant arpeggiaidd llaw chwith y Piano – barrau 110-112
- Crosietau tripledi yn erbyn dau grosiet – barrau 88-89
- Pedal – barrau 31-32
- Efelychiant lleisiol antiffonïaidd – barrau 51-55; 56-61; 63-83
- Galw ac ateb – bar 63 ymlaen

❍ **Offeryniaeth**

Piano
Lleisiau
Gitâr Flaen
Gitâr Fas
Cit Drymiau
Lleisiau cefndirol

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**

L'istesso tempo: cadw'r un tempo ag o'r blaen ond nawr y curiad cwafer = curiad crosiet newydd

Pwyntiau diddorol

- Strwythur cerddorol anarferol, â symud digyswllt, heb gytgan iawn (sydd yn arferol mewn cyfansoddiadau modern pop a roc), ar wahân i Atgan 4.
- Is-deitl y gân yw 'hunllef fyw'.
- Cafodd ei recordio ym 1975 ar gyfer yr albwm *Night at the Opera*, ond cafodd ei rhyddhau hefyd fel record sengl.
- Mae'n cynnwys mân gyfeiriadau cerddorol at bump arddull/*genre* gwahanol, h.y. harmonïau clòs siop barbwr, ariâu operatig a chytganau, canu *a cappella*, galw ac ateb antiffonïaidd, a roc trwm.
- Gwead homoffonig gan mwyaf, gyda Freddie Mercury ei hun yn cyfeilio ar y Piano.
- Mae'r motiff cromatig a glywn yn llaw dde'r Piano am y tro cyntaf ym mar 7 yn digwydd mewn mannau eraill hefyd, e.e. barrau 31-32, a bar 119.
- Mae'r rhan leisiol *tessitura* uchel yn cael ei chanu'n *falsetto*.
- Symud alawol minimol, fesul cam, yn yr atganau cynnar.

❍ **Gwybodaeth bellach**

Fideo o berfformiad byw ar www.youtube.com

‘Killer Queen’

Elfennau cerddorol

❍ Ffurf

- Pennill / Cytgan / Pennill / Cytgan / 8 Canol / Pennill / Cytgan
- Penillion a chytganau yn stroffig gan mwyaf

❍ Strwythur

1-14	14-26	26-38
Pennill 1 Unawd leisiol – cyfeiliant Piano â chordiau *secco* (byr a bachog). Band i mewn ym mar 64 â llinell ddisgynedig gromatig gadarn. Lleisiau cefndirol ym mar 8 (Ooh). Barrau 12-14 – ‘cyswllt cyn-gytganaidd’ neu is-adran bontio.	**Cytgan** Harmoni homoffonig pedair rhan. Cymysgedd o gyweiredd mwyaf a lleiaf yn seiliedig ar gywair B♭ fwyaf, yn fframio tonyddiad o gord iii, D leiaf. Pont offerynnol 4 bar.	**Pennill 2** Unawd leisiol â chordiau Piano, yna pedal bas ar y Gitâr (barrau 27-30). Lleisiau cefndirol homoffonig – trawsacennog (barrau 32-37).

38-50	51-59	61-69	69-79
Cytgan Harmoni homoffonig pedair rhan. Cymysgedd o gyweiredd mwyaf a lleiaf yn seiliedig ar gywair B♭ fwyaf a D leiaf. Mae yma 5 bar yn llai o ganu na’r cytgan blaenorol (barrau 14-26), oherwydd bod y Gitâr nawr yn chwarae ail ran yr alaw (barrau 44-50).	**8 Canol** Chwarae Gitâr byrfyfyr yn seiliedig gan mwyaf ar ddilyniant cordiol y pennill (barrau 4-11): C leiaf, B♭7 x2, E♭, G leiaf, E♭7, A♭ a.y.b.	**Pennill 3** Unawd leisiol – yn fyrrach na’r 2 bennill blaenorol. Yn seiliedig ar harmonïau ail ran y pennill: G7-C leiaf x2, B♭-E♭, D7-G leiaf, F-B♭ (5^{edau} disgynedig cylchol). Mae modd ystyried yr adran hon hefyd fel estyniad o’r ‘cyswllt cyn-gytganaidd’ (barrau 12-14).	**Cytgan** Harmoni homoffonig pedair rhan. Cymysgedd o gyweiredd mwyaf a lleiaf yn seiliedig ar gywair B♭ fwyaf a D leiaf. Y band sy’n diweddu trwy dawelu’n llwyr yn y pen draw – yn seiliedig ar gord y tonydd, E♭ fwyaf.

❍ Gwead

- Ysgafnach yn y penillion
- Dwysach yn y cytganau a’r lleisiau cyfeiliol
- Cytganau homoffonig

Genre: Glam Roc

❍ Cyweiredd

- Prif gywair: E♭ fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
G leiaf – bar 14^{3}
B♭ fwyaf – bar 15^{1}
D leiaf – bar $17^{3,4}$
C fwyaf – bar 18^{4}

❍ **Harmoni**
- Cyweiraidd
- Diatonig
- Mwyaf
- Lleiaf

Cordiau:
- Safle gwreiddiol $\begin{matrix}5\\3\end{matrix}$ – e.e. barrau 15-16
- Tonydd $\begin{matrix}6\\3\end{matrix}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 26^{4}
- Ail wrthdro $\begin{matrix}6\\4\end{matrix}$ – barrau $7^{3,4}$; $9^{3,4}$
- Trydydd gwrthdro – bar $8^{1,2}$
- 7^{fed} ar y llywydd, e.e. A7 – bar 17^{3}; G7 – bar $21^{1,2}$
- Triadau lleiaf, e.e. B♭ lleiaf – bar $68^{1,2}$; A♭ lleiaf – bar $9^{1,2}$
- 7^{fed} cywasgedig – bar 65^{4} (lleisiau cyfeiliol)

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Amser cyfansawdd $\begin{matrix}12\\8\end{matrix}$ yn newid i $\begin{matrix}6\\8\end{matrix}$ – barrau 10; 34; 58; 69
- Lleisiau cefndirol – barrau 8-11; 31-37; 63-68
- Harmonïau 4 a 5 rhan yn y cytganau
- Cordiau acennog fampio ailadroddus – barrau 1-11 (arddull y felangan)
- Pedal – barrau 23-24; 27-30
- Llinellau cromatig disgynedig yn y bas – barrau 7-8
- Riffs ostinati yn y bas – barrau 14-18
- Trawsacen – barrau 21-26
- Diweddebau: Amherffaith – bar 11
  Perffaith – bar 14
- Cyweiredd mwyaf, e.e. barrau 3-7
- Cordiau mwyaf-lleiaf – barrau 8-9; 32-33; 56-57 (A♭ fwyaf i A♭ leiaf)
- Efelychiant – barrau 44-45 a 46-47
- Unawdau Gitâr – barrau 44-61
- Anacrwsis yn y penillion ac yn y cytganau
- Y ddau bennill cyntaf yn dechrau â chord C leiaf (perthynol lleiaf)
- Nifer o enghreifftiau o 5^{edau} disgynedig cylchol a ddaeth o draddodiad cyfansoddi'r felangan, e.e. pennill 3 – barrau 61-69

❍ **Offeryniaeth**
Piano
Lleisiau
Gitâr Flaen
Gitâr Fas
Cit Drymiau
Lleisiau cefndirol

Pwyntiau diddorol

- Dylanwad y felangan â dilyniant harmonig y 5edau disgynedig cylchol, e.e. pennill 3 – barrau 61-69.
- Arddull leisiol *glissando/portamento* ym marrau $15^{3,4}$; 22-23.
- Amser cyfansawdd $\frac{12}{8}$
- Harmonïau pedair rhan cymhleth yn y cytganau a'r penillion.
- Unawd Gitâr aml-drac gan Brian May.
- Cafodd unawdau Brian May eu hychwanegu'n hwyrach, wedi iddo wella o afiechyd.
- Cafodd dwy Gitâr Fas eu defnyddio ar adegau.
- Cafodd y gân ei chyfansoddi ym 1974 ar gyfer yr albwm *Sheer Heart Attack*.
- Arddull *Vaudville*/theatr gerdd retro (1940au).
- Cafodd y geiriau eu llunio'n gyntaf, yna'r gerddoriaeth.
- Roedd Freddie Mercury yn defnyddio Piano cyngerdd crand ar gyfer recordio ac ar lwyfan, ond cafodd y recordiad hwn ei drosleisio gan sain Piano Honci-tonc, er mwyn rhoi ansawdd sain ysgafn i'r gân.
- Cafodd rhannau o'r gân eu recordio yng Nghymru (Stiwdios Rockfield ym Mynwy, Gwent).

❍ **Gwybodaeth bellach**
Fideo ar www.youtube.com

Loesser: *Guys and Dolls*

Rhagarweiniad

Guys and Dolls yw un o'r sioeau cerdd comedi mwyaf cofiadwy a fu ar Broadway erioed. Cafodd ei llwyfannu am y tro cyntaf ym 1950, gan barhau ar 46th Street yn ddi-dor am ddwy flynedd a hanner. Brodor o Efrog Newydd a chyfansoddwr hunanddysgedig oedd Frank Loesser (1910-1969). Seiliodd ei sioe gerdd ar ddwy stori fer gan Damon Runyon – *The Idyll of Miss Sarah Brown* a *Blood Pressure*. Mae straeon am garwriaeth, hapchwarae a diwygiad crefyddol ynddi, y cyfan wedi'u lleoli mewn cenhadfa Byddin yr Iachawdwriaeth yn Efrog Newydd, lle roedd gwaharddiad ar alcohol yn bodoli ar y pryd. Mae enw Damon Runyon yn ymddangos yn y teitl agoriadol, 'Runyonland'.

'Runyonland'

Elfennau cerddorol

❍ **Arddull**

- Sioe gerdd/*Vaudeville*
- Dim ffurf gonfensiynol. Agoriad braidd yn wyllt i'r sioe gerdd, sy'n darlunio'r bywyd prysur ar strydoedd Efrog Newydd, â chymeriadau amrywiol yn ymddangos am ennyd yn ystod y gerddoriaeth. Mae pob atgan yn cyflwyno cymeriadau gwahanol.

❍ **Strwythur**

1-12	12-28	29-46	47-52	53-74
Atgan 1 Yn dechrau ar gord A♭7. Llinell alawol fywiog (uwchben crosietau'n ailadrodd) â ffigurau arpeggiaidd yn ymweld â chyweiriau amrywiol. Mae harmonïau cromatig yn nodweddiadol o'r atgan hon. Mae Chwythbren a Phres yn amlwg.	**Atgan 2** Nid yw'r agoriad mor rhythmig. Ymateb rhwng Pres isel a Sacsoffonau. Galwad unsain yn y Trombonau ac ateb harmonig yn y Sacsoffonau. Bas Llinynnol yn fwy amlwg.	**Atgan 3** Thema: 'Luck be a lady' (4 bar o hyd). Trawsacen uwchben dau gord. Mae hyn yn parhau am 16 bar cyn bod cordiau C ac A♭7 yn cynnal addurnwaith cwaferi 2 far (3yddau yn y Ffidlau), gan symud y gerddoriaeth i fyny hanner tôn trwy ddefnyddio cord cyswllt A♭7 (bar 46).	**Atgan 4** D♭ fwyaf. Yr un arddull a'r un thema ag atgan 3, ond 6 bar o hyd. Mae'r ail frawddeg yn dechrau, ond yn symud ymlaen ar ôl un bar yn unig o'r thema. Mae rhai cyfalawon cyflym yn y Chwythbrennau uchaf. Daw cymorth rhythmig cryf oddi wrth y Cit Drymiau.	**Atgan 5** Deunydd newydd alawol yn E♭, er ei fod yn gromatig ei natur. Defnydd o 'nodau'r felangan' ym marrau 57 (F#) a 59. Mae cord enharmonig (A9) ym mar 66 yn creu awyrgylch 'jazzaidd'. Mae cyfres o 4 cord yn cynnal graddfa gromatig ddisgynedig sy'n gorffen yn F (bar 70), ac yn cael eu hailadrodd 8fed yn is ar y cryno ddisg yn unig.

❍ **Gwead**
- Agoriad ysgafn
- Yn ddwysach gyda'r Pres
- Amlhaenog
- Gwrthbwyntiol
- Rhai adrannau homoffonig, e.e. barrau 53-60

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: C fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
D♭ fwyaf – bar 47
E♭ fwyaf – bar 65

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Mwyaf
- Lleiaf
- Sylfaen
- Safle gwreiddiol – bar 29
- Gwrthdro cyntaf (G7) – bar 6
- Ail wrthdro – bar 4
- C fwyaf – bar $29^{1,2}$
- C leiaf – bar 7
- A♭7 – bar 46
- F9 – bar 61
- A9 – bar 66
- 6^{ed} atodol (E♭6) – bar 25
- B♭9 – bar 5

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Galw ac ateb, e.e. barrau $12^{3,4}$-19
- Cyfeiliant fampio jazzaidd – barrau 29-61
- Rhythm ostinato dilyniannol yn y bas – barrau 21-24
- Pedal – barrau 1-4
- Patrwm ostinato 2 nodyn yn y bas – barrau 29-45
- Gohiriant – bar 12^{1}
- Diweddebau: Perffaith – barrau 29; 47
  Amherffaith – bar 12
- Glissandi yn y Pres, e.e. barrau 43; 44

❍ **Offeryniaeth**
Cerddorfa nodweddiadol i sioe gerdd
Chwythbren
Sacsoffonau
Pres
Cit Drymiau
Offerynnau taro
Bas llinynnol

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**

¢ : amser cyffredin rhanedig (2 guriad i'r bar)
marc. (marcato): acennog
gliss. (glissando): llithro o un nodyn i'r llall
sfz (sforzando): acen sydyn

Pwyntiau diddorol

- Nid hon oedd hoff sioe gerdd Loesser.
- Mae gan bob atgan ei nodweddion rhythmig a'i sgorio ei hun.
- Y brif alaw/thema yn yr agoriad hwn yw 'Luck be a lady tonight'.
- Sgorio cyfoethog, disglair a chynhyrfus.

'Fugue for Tinhorns'

Tri chymeriad – Nicely-Nicely, Benny a Rusty – yn dadlau ynglŷn ag enillydd tebygol ras geffylau.

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**

Canon, â phob llais yn canu'r brif alaw dair gwaith.

❍ **Strwythur**

1-6	6-18	18-22	22-26
Rhagarweiniad D fwyaf. Llinell fas ar y tonydd/ llywydd – arddull fampio bianistig. Clarinét yn amlwg (Gershwinesque). Cordiau'r 7fed. Ffanffer â nodau tripledi yn arwyddo cychwyn y ras geffylau ym mar 3. Swing jazzaidd i'r gerddoriaeth. Gwead ysgafn a thempo rhythmig caeth.	**Canon 1** Nicely-Nicely **(Llais 1)** ag alaw y canon – yn drawsacen â rhythmau dot. Cyfeiliant gan y Trwmped â mudydd. 2il ran yr alaw yn llai rhythmig – 5edau dilyniannol disgynedig. Cordiau trawsacen.	**Canon 2** Benny **(Llais 2)** â'r brif alaw, sy'n cael ei hailadrodd yn union fesul nodyn, ond am y geiriau gwahanol wrth gwrs! Nicely-Nicely (Llais 1) yn parhau i ganu ail ran yr alaw mewn gwrthbwynt â'r brif alaw.	**Canon 3** Rusty **(Llais 3)** â'r brif alaw, sy'n cael ei hailadrodd yn union fesul nodyn, ond am y geiriau gwahanol, sy'n cwblhau'r rownd gyntaf o gydiadau canonig. Benny (Llais 2) yn parhau i ganu ail ran yr alaw mewn gwrthbwynt â'r brif alaw.

26-50	51-58
2^{il} & 3^{ydd} cydiad 2^{il} gydiad **Llais 1** – bar 26^{3} 2^{il} gydiad **Llais 2** – bar 30^{3} 2^{il} gydiad **Llais 3** – bar 34^{3} 3^{ydd} cydiad **Llais 1** – bar 38^{3} 3^{ydd} cydiad **Llais 2** – bar 42^{3} 3^{ydd} cydiad **Llais 3** – bar 46^{3}	**Coda/Outro** Band tutti â chordiau *sfz* acennog (bar 50). Lleisiau'n adeiladu triad B♭ leiaf â chydiadau yn eu tro, yna'n gorffen ag alaw unsain sy'n troi'n harmoni clòs, cyn gorffen ar gord dal D♭ fwyaf.

❍ **Gwead**
- Tenau/ysgafn ar y dechrau
- Cynyddu â phob cydiad lleisiol
- Gwrthbwyntiol a dwys drwyddo draw
- Homoffonig yn y coda – barrau 52-56

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: D♭ fwyaf

❍ **Harmoni**
- Diatonig

Cordiau:
- Safle gwreiddiol
- Tonydd: D♭ $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 8 (7 mwyaf)
- D♭7 – bar 1^{1,2}
- E♭7– bar 11^{1,2}
- D♭6 – bar 16
- E♭9 – bar 53^{3,4}

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Canon – mae'r brif alaw yn 12 bar o hyd (4+4+4)
- Anacrwsis i bob cydiad
- Nid ffiwg iawn mohoni ond canon (byddai'r ail lais yn dod i mewn ar y 5^{ed} pe bai hi'n ffiwg iawn)
- Dilyniant – barrau 10^{4}-13^{1}
- Efelychiant – barrau 12^{4}-61^{3}
- Gwrthsymud addurniadol gan y band i ddiweddu – barrau 55-56
- Wrth i'r lleisiau ddod i mewn, mae offerynnau hefyd yn chwarae gan ddwysáu'r gwead offerynnol – Trwmped â mudydd a Chlarinét yn amlwg
- Adran daro yn cynyddu'r sain o far 45 ymlaen
- Diweddeb: Perffaith – bar 56^{2}
- Graddfa gromatig – barrau 9; 21 (alaw a band)
- Nodau tonnog is – bar 6^{4} (alaw)

❍ **Offeryniaeth**
Cerddorfa nodweddiadol i sioe gerdd
Chwythbren
Sacsoffonau
Pres
Cit Drymiau
Offerynnau taro
Bas llinynnol

Pwyntiau diddorol

- Mae'r 'Guys' yn cyfnewid tips rasio yn y gân hon ac yn dadlau ynglŷn â phwy fydd enillydd ras drannoeth.
- Wedi'r ail gydiad canonig, mae'r brif alaw yn ymddangos bob 4 bar tan far 50.
- Yr un dilyniannau cordiol sy'n cael eu defnyddio gydol y darn.
- Does dim newid cywair na tempi.
- Rhythmau jazz croesacennog gydol y darn.

Bernstein: *West Side Story*

Rhagarweiniad

Gwnaeth Leonard Bernstein (1918-1990) ei farc ar gerddoriaeth glasurol a cherddoriaeth boblogaidd fel cyfansoddwr/arweinydd. Bernstein, yn ddiau, oedd un o bersonoliaethau mawr y byd cerdd yn yr 20fed ganrif yn America – yn gwbl gartrefol ag arddulliau clasurol a jazz. Mae ei sioe gerdd enwocaf, *West Side Story*, wedi'i seilio ar drasiedi Shakespeare, 'Romeo a Juliet'. Ynddi cawn glywed meistrolaeth lwyr Bernstein ar ffurfiau megis ffiwg gyfresol, rhythmau dawns Lladin-Americanaidd, cordiau jazz ac arddulliau crand y byd opera.

Cymeriadau

Maria a Tony – cariadon â bywydau trasig
Anita a Bernardo (Sharks) – gang o Puerto Rico
Riff (Jets) – gang o Efrog Newydd

'Tonight'
(Pumawd)

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**

Tair prif adran:

1) Bygythiadau ac ymagweddu treisgar y gangiau – barrau 1-67
2) Tony'n edrych ymlaen at gyfarfod â Maria 'tonight' – barrau 67-98
3) Maria'n edrych ymlaen at gyfarfod â Tony, ynghyd â bygythiadau oddi wrth Riff, Anita a'r gangiau – barrau 98-151

❍ **Strwythur**

1-6	6-37	37-52	52-68	68-98
Rhag Cerddorfa. Ffigurau ostinati yn y Ffidlau a'r Bas. A leiaf	**Riff & Bernardo** Dwy thema – **A** (bar 7) a **B** (bar 15). A leiaf	**Jets & Sharks** Thema newydd (**C**) yn y tonydd mwyaf.	**Anita (Sharks)** Y ddwy thema **A** & **B**, nawr 8fed yn uwch ac mewn rhythm tripledi afreolaidd. A leiaf	Thema delynegol gariadus (**D**), yn cael ei chanu gan Tony, ar ffurf **A A¹ B A²**. Tonydd mwyaf yn trawsgyweirio i C fwyaf.

98-118	118-151
Interliwd gerddorfaol yn defnyddio deunydd ostinati blaenorol. Riff yn canu themâu **A** & **B** yn C leiaf.	**Ensemble tutti** Themâu wedi'u cydblethu, yn cadw at yr un dilyniannau harmonig â chynt, ond mewn amrywiol gyweirnodau.

❍ **Gwead**
- Dwys
- Amlhaenog
- Offerynnol a lleisiol

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: A leiaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
Tonydd mwyaf – barrau 37; 68; 92
C fwyaf (perthynol mwyaf) – bar 76
C leiaf – bar 102
E♭ fwyaf – bar 126
F leiaf – bar 134

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- Anghyseinedd, e.e. bar 13 (F♮ /F#)
- Clwstwr, e.e. bar 46 (13^{eg} ar y llywydd)
- G fwyaf $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 132^{1,2}
- B leiaf $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 124
- Gwrthdro cyntaf $\frac{6}{3}$ – bar 95^{4} (F# leiaf); bar 138 (E♭ leiaf)
- F fwyaf $\frac{6}{4}$ (ail wrthdro) – bar 84
- 7^{fed} ar y llywydd – bar 75 (G7)
- F7 leiaf $\frac{4}{2}$ – bar 127

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Arwyddion amser $\frac{4}{4}$ & $\frac{2}{4}$ bob yn ail far, e.e. barrau 1-14
- Arwydd amser $\frac{3}{8}$ yn ysbeidiol, e.e barrau 16; 19; 65; 113 hyd at far 117
- Diweddebau: Perffaith – barrau 76; 92
- Estyniad – barrau 130-132 (caiff ei ganu gan y Sharks)
- Cyfalaw (canon) yn y Ffidlau, gyda'r llinell leisiol – barrau 84-91
- Ffigur ostinato 3 nodyn yn disgyn fesul nodyn yn y bas – barrau 1-15; 20-29; 53-60 a 102-111 (3^{ydd} yn uwch)
- Ffigur ostinato 2 nodyn yn y bas – barrau 37-45
- Ffigur ostinato arpeggiaidd – barrau 148-151
- Ostinati cwaferi offerynnol yn y Ffidlau – barrau 2-12; 22-27; 53-59
- Rhythmau trawsacen – o far 68 ymlaen, â'r thema gariadus
- Pedal – barrau 68-71; 118-122
- Gohiriannau – barrau 88; 95

- Newidiadau cywair enharmonig – bar 125 (Tony yn canu'r 5ed a'r 7fed nodyn uwchben cord B♭7)
- Motiff rhythmig 4 nodyn (barrau 12-13) – 'tonight' – yn ymddangos gydol y gân gan y gerddorfa a'r lleisiau, e.e. barrau 45; 55; 101; 106; 117; 121
- Dyfais ddiddorol a dramatig-gerddorol arall yw'r herio lleisiol antiffonïaidd sydd rhwng y gangiau croes – barrau 46-47

❍ **Offeryniaeth**
Maria: Soprano
Tony: Tenor
Anita: Mezzo-Soprano
Bernardo (Sharks): Bariton
Riff (Jets): Bariton
Cerddorfa

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
marcato: wedi'i acennu
marcatissimo: wedi'i acennu'n gryf
molto: llawer
sempre: bob amser
p sub. (subito): tawelu sydyn

Pwyntiau diddorol

- Anacrwsis ar ddechrau'r prif frawddegau lleisiol.
- Arddull yr adroddgan sydd i thema A.
- Mae gan y ddwy gang (Jets & Sharks) ac Anita yr un leitmotiffau rhythmig bygythiol.
- Mae gan Maria a Tony leitmotiffau rhamantaidd a thelynegol.
- Daw'r 5 llinyn lleisiol yma ynghyd mewn gwead amlddimensiynol ym marrau 117-151.
- Offeryniaeth/gwead llawnach a chynnydd yn y dynameg yn yr adran olaf.
- Gwrthgyferbyniad rhwng themâu'r gangiau a'r thema gariadus.
- Pendantrwydd wrth ganu thema C yn unsain ym mar 38.

'Maria'

Elfennau cerddorol

❍ **Strwythur**

1-8	9-14	15-20	20-25	26-28
Rhag Arddull *parlando/ recitativo*. Defnyddio ffigur tripledi cwaferi (prif fotiff).	**A1** Alaw leisiol (fesul cam) yn cael ei dyblu gan y gerddorfa. Cyweiredd mwyaf.	**A2** Alaw leisiol (fesul cam) yn cael ei dyblu gan y gerddorfa. Cyweiredd lleiaf (barrau 18-20).	**B** Alaw leisiol (disgynedig) yn cael ei dyblu gan y gerddorfa. Cyweiredd lleiaf (barrau 23-24).	**Estyniad** Alaw leisiol (motiff 3 nodyn) yn cael ei dyblu gan y gerddorfa. Mae modd ystyried yr alaw hon hefyd fel estyniad o B. Cyweiredd mwyaf (barrau 18-20).

28-33	34-39	40-47	48-53
A1 Alaw gan y gerddorfa. Y llinell leisiol yn cael ei thorri gan y motiff a gaiff ei ailadrodd, 'Maria'.	**A2** Alaw gan y gerddorfa. Y llinell leisiol yn cael ei thorri gan y motiff 'Maria' – *tessitura* uchel.	**B** Alaw leisiol (fesul cam) yn cael ei dyblu gan y gerddorfa (e.e. barrau 21-25), gyda'r estyniad fel uchod.	**Coda** Ailadrodd motiff bar 10 yn y llinynnau uchaf. Alaw leisiol (motiff 3 nodyn) yn cael ei chanu'n dawel mewn arddull *parlando*. Cordiau cynaledig gan y gerddorfa.

❍ **Gwead**
- Tenau – barrau 1-8
- Mwy trwchus o far 9 ymlaen

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: E♭ fwyaf (adroddgan B fwyaf)

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- Llywydd mwyaf $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – barrau 12^{3}; 47^{1}
- Lleiaf (safle gwreiddiol) – bar 43^{1}
- Meidon feddal (G♭ 6^{ed} atodol) – bar 49
- F7 lleiaf – bar 13^{1}
- E♭7 mwyaf – bar 14^{1}
- B♭7 mwyaf – bar 17^{3}
- Llywydd $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 11^{2}

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**

- Diweddeb: Amen (IV-I) – bar 25 (F fwyaf)
- Mae ychwanegiad ym mar 10 o'r motiff tripledi cwaferi gwreiddiol o far $8^{3,4}$ – nawr mae'r cwaferi gwreiddiol yn grosietau
- Ffigurau'n ailadrodd – barrau 10-11
- Rhythmau ostinati trawsacen yng nghyfeiliant bas y gerddorfa ym marrau 9-46
- Newid o amser cyffredin (barrau 1-8) i amser rhanedig cyffredin/2 guriad yn y bar (bar 9 ymlaen)
- Appoggiatura acennog – barrau 7-8 (Llais, Llinynnau a Chwythbrennau)
- Harmonïau cromatig – barrau 7-8

❍ **Offeryniaeth**

Tony: Tenor
Cerddorfa

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**

Moderato con anima: Amser cymedrol ac egnïol
dolce: swynol
rall. (rallentando) molto: llawer yn arafach
Meno mosso: Llai o symudiad
a piacere: allan o'r tempo arferol (ad lib)
Adagio: Araf
8va…: chwarae 8^{fed} yn uwch na'r nodau ysgrifenedig
con sord. (sordini): â'r mudydd
senza sord. (sordini): heb y mudydd
Ossia: Nodau bychain amgen (barrau 36-39)

Pwyntiau diddorol

- Anacrwsis ar ddechrau pob brawddeg leisiol.
- Offeryniaeth lawnach, gwead dwysach cynyddol, a chynnydd yn y ddynameg hyd at far 42.
- Cafodd y trawsgyweirio o gywair B fwyaf i E♭ fwyaf ei gyflawni trwy ddefnyddio'r un nodyn oedd yn gyffredin i'r cyweiriau (nodyn enharmonig), sef D# = E♭, ym mar 8.
- Llinellau alawol yn symud fesul cam gan mwyaf.
- Llinellau *tessitura* operatig ym marrau 34-39.
- Ystod eang o ddynameg yn y llais a'r gerddorfa.
- Pwysigrwydd cyfwng y 4^{ydd} estynedig sy'n codi (trithon) yn nau nodyn cyntaf y thema hon (caiff y cyfwng hwn hefyd yr enw 'naid y diafol' oherwydd ei fod yn anodd iawn ei ganu). Ni fyddai'r cyfwng yn cael ei ddefnyddio mewn cyfansoddiadau eglwysig cynnar, ond heddiw fe'i defnyddir yn helaeth mewn alawon digywair.
- Hefyd, rhaid sylwi ar y motiff 2 nodyn adferol esgynedig sy'n dilyn y 4^{ydd} estynedig (cymharer â Jaws) a gafodd ei chwarae am y tro cyntaf ar draws y llinellau bar yn y llais a'r llinynnau (barrau 9-11; 15-16), ac yn olaf yn llinynnau'r gerddorfa (barrau 51-52).
- Yr un motiff i'w glywed yn adran bas y cyfeiliant – barrau 15-17; 34-36.

Boublil a Schönberg: *Les Miserables*

Rhagarweiniad

Portreadu'r boen a'r ing a ddioddefodd ei gydwladwyr yn y 1820au a'r 1830au wnaeth yr awdur Ffrengig, Victor Hugo, yn ei nofel. Cydweithiodd y cyfansoddwr, Claude-Michel Schönberg, â'r libretydd, Alain Boublil, i gynhyrchu un o'r sioeau cerdd enwocaf yn hanes y theatr. Cafodd y sioe ei pherfformio am y tro cyntaf ym Mharis ym 1980.

'On My Own'

Caiff yr unawd hon ei chanu gan Eponine.

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
AABBAA

❍ **Strwythur**

1-2	3-10	3-10	11-18	19-26	27-34	35-38
Rhag	**Adran A** D fwyaf	**Adran A** D fwyaf	**Adran B** B♭ fwyaf	**Adran A** F fwyaf	**Adran A** F fwyaf	**Coda** F fwyaf

❍ **Gwead**
- Tenau i ddechrau ond yn ddwysach yn adran B.

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: D fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
A fwyaf (llywydd) – barrau 5-6
B♭ – barrau 11-14
E leiaf (uwch donydd) – barrau 15-17

❍ **Harmoni**
Diatonig

Cordiau:
- Hanner cwaferi triadig toredig – barrau 1-11
- Mwyaf a lleiaf, safleoedd gwreiddiol
- 7^{fedau} atodol – bar 17 (A7 leiaf)

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Pedal – barrau 3-4 (D); 12-13 (B♭)
- Cyfeiliant ostinati – barrau 1-10
- Cyfeiliant trawsacen – barrau 1-10 (llaw dde)
- Dilyniant – bar 1 (llaw dde'r Piano)
- Trawsacen yn y llinell leisiol – barrau 8; 10; 19; 27

❍ **Offeryniaeth**
- Seiniau wedi'u syntheseiddio/Allweddell
- Cerddorfa symffonig
- Offerynnau taro
- Unawd i ferch – *Eponine*

❍ **Score indications**
Andante: Cyflymder cerdded
p (piano): tawel
mf (mezzo forte): eithaf uchel
f (forte): uchel
ff (fortissimo): uchel iawn
𝄐 : daliant
rit. (ritardando): arafu

Pwyntiau diddorol

- Anacrwsis ar ddechrau pob brawddeg leisiol.
- Rhythmau cwaferi, cwaferi dot a hanner brifiau gan mwyaf.
- Llinell fas gromatig ddisgynedig – barrau 6-8; 22-23.
- Motiff tri nodyn disgynedig yn y rhagarweiniad (barrau 1-2) – yn rhan trebl y cyfeiliant.
- Cywair uwch (F fwyaf) wrth ailadrodd adran A – barrau 27-34.
- Offeryniaeth gyfoethocach/gwead a chynnydd yn y dynameg yn yr adran olaf (barrau 27-34).
- Arpeggio/cyfeiliant cordiol gwasgar yn adran A.
- Cyfeiliant crosiet cordiol yn adran B.
- Diweddebau: Perffaith – barrau 21^{4}-22^{1}
  Amherffaith – barrau 33-34
  Amen – barrau 37-38
- Newid acen o $\frac{4}{4}$ i $\frac{2}{4}$ ym marrau 8 a 24.
- Newid acen o $\frac{3}{4}$ i $\frac{4}{4}$ ym marrau 9-10 a 25-26.
- Newidiadau harmonig eithafol a dramatig (E♭ fwyaf i E leiaf) – barrau 14-15.

'One Day More'

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Trwy-gyfansawdd

❍ **Strwythur**

1-4	5-12	13-25	26-35
Rhag Cerddorfa	**Adran 1** A fwyaf Thema 1 (Valjean) Thema 2 (Marius)	**Adran 2** Amryw gyweirnodau Themâu 2 & 3 (Marius, Cosette, Eponine)	**Adran 3** Amryw gyweirnodau Thema 3 (Enjolras, Marcellas)

36-40	40-43	44-53	54-68
Adran 4 A fwyaf Thema 1(Valjean) Thema 4 (Javert)	**Adran 5** A fwyaf Thema 5 (Thénardiers)	**Adran 6** Amryw gyweirnodau Thema 3 (grwpiau o'r corws)	**Adran 7** C fwyaf Cyfuniad o themâu (unawdwyr, ensembles, corws)

❍ **Gwead**
- Tenau i ddechrau ond graddol dyfu'n ddwysach erbyn yr adran olaf.

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: A fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
E♭ fwyaf – bar 32
A fwyaf – bar 36
C fwyaf – bar 54

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- A fwyaf $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 24
- F leiaf $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 27
- 6ed atodol – bar 1[1] (llaw dde'r Piano)
- F#7 lleiaf – bar 10[1]
- 7fed ar y llywydd – bar 23[3] (E)
- D7 mwyaf – bar 38[2]

- C fwyaf $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 26[3]
- G#7 cywasgedig – bar 62[1]

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Pedal y tonydd – barrau 51-52 (bas y cyfeiliant)
- Ostinati – barrau 1 a 2
- Cyfeiliant trawsacen – barrau 17-23
- Dilyniant – barrau 5-6; 28-32[1]
- Dilyniant yn ailadrodd – barrau 30-33
- Galw ac ateb – barrau 26-33 (*Enjolras/Marcellas*)
- Ysgrifennu antiffonïaidd i lais, e.e. barrau 17-25

❍ **Offeryniaeth**
- Seiniau wedi'u syntheseiddio/Allweddell
- Cerddorfa symffonig
- Offerynnau taro
- Unawdau i ddynion (5) – *Valjean, Marius, Enjolras, Marcellas a Javert*
- Unawdau i ferched (2) – *Eponine a Cosette*
- Corws tutti + *Thénardiers*

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Moderato: Cyflymder cymedrol
pp (pianissimo): tawel iawn
p (piano): tawel
ff (fortissimo): uchel iawn
rall. molto: arafu'n bwrpasol
a tempo: yn ôl i'r cyflymder gwreiddiol

Pwyntiau diddorol

- Rhythmau cwaferi, cwaferi dot a hanner brifiau gan mwyaf.
- Llinell fas ddisgynedig – barrau 1-4; 58-61.
- Diweddebau: Perffaith – barrau 8-9; 65-66.
- Newid enharmonig o gord A♭ i gord E fwyaf – barrau 34-35.
- Newid acen o $\frac{4}{4}$ i $\frac{5}{8}$ ac i $\frac{2}{4}$ ym marrau 61-64.
- Dau far agoriadol y rhagarweiniad wedi'u seilio ar gord gwasgar A6. Mae'r motiff hanner cwafer rhagarweiniol hwn yn ymddangos nifer o weithiau yn y darn, e.e. barrau 10; 12; 14; 16, ac wedi'i addasu ychydig ym marrau 33-36. Daw yn ôl ym marrau 54-62, ac yn derfynol ym marrau 64-68.
- Mae'r motiff tri nodyn agoriadol hwn, 'One day more' (barrau 4-5), yn ymddangos gydol y darn fel leitmotiff Valjean (barrau 12; 35-36; 39-40; 63-65) – ond wedi'i addasu ar adegau. Dyma'r motiff tutti olaf yn y gân.
- Mae'r llinellau lleisiol bob amser yn y cyfeiliant cerddorfaol.
- Mae gan y saith cymeriad eu leitmotiffau eu hun, e.e. Thénardiers – bar 40.
- Rhyngweithio lleisiol rhwng y cymeriadau. Caiff y themâu eu cydblethu gan ddefnyddio deunydd o'r unawdau gwahanol, e.e. 'I dreamed a dream.'
- Mae'r adran olaf yn amlddimensiynol, yn dilyn traddodiadau opera crand â chanu ensemble cryf sy'n seiliedig ar y prif driadau.
- Mae'r adran olaf mewn cywair uwch, sef y feidon feddal, C fwyaf, ac yn sicrhau diweddglo dramatig â phob un o'r themâu yn cydblethu'n grefftus i'w gilydd.

Mervyn Burtch: *Tair o Alawon Gwerin*

Rhagarweiniad

Cyfansoddwr yw Mervyn Burtch a gafodd ei fagu yng nghymoedd De Cymru ac a ddaeth yn enwog am ei gerddoriaeth siambr, ei gyfansoddiadau i fandiau pres a'i operâu i ysgolion. Cafodd ei eni yn Ystrad Mynach ac mae'n perthyn i'r grŵp o gyfansoddwyr o Gymru sy'n cynnwys Dilys Elwyn-Edwards, Alun Hoddinott, William Mathias, David Wynne a Grace Williams.

Comisiynwyd y trefniannau hyn o alawon gwerin Cymreig ar gyfer Côr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru ac fe'u perfformiwyd am y tro cyntaf ym 1994. Mae gan Mervyn Burtch ei arddull unigryw ei hun o gyfansoddi ac mae bob amser yn adeiladu ei weithiau ar sail gyweiraidd. Y prif ddylanwadau ar ei gyfansoddi yw Janacek a Bartok.

'Cysga di, fy mhlentyn tlws'

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Stroffig o ran y cynnwys alawol

❍ **Strwythur**
Alaw: 4+4+2

1-5	6-15	16-19	20-29	30-33
Rhag Yn seiliedig ar farrau 6 ac 8 (yr alaw), gyda chydiadau fesul llais SAT yn eu tro.	**Pennill 1** Alto sydd â'r alaw. Daw cymorth harmonig oddi wrth y rhannau eraill.	**Y Bont** Lleisiau'r dynion sydd â'r motiff (siglo'r crud).	**Pennill 2** Alto sydd â'r alaw. Lleisiau'r dynion yn parhau yn arddull yr adrannau pontio. Desgant y Soprano.	**Coda** Wedi'i seilio ar fotiff 5 nodyn sy'n disgyn trwy'r raddfa yn adrannau'r SAB.

❍ **Gwead**
- Gweddol ysgafn
- Homoffonig

❍ **Cyweiredd**
- F# Aeolaidd

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- Seiliedig gan mwyaf ar ddau gord (F# a C#)
- Moddol – cymharer â Chaneuon Gwerin Hwngaraidd Bartok
- Tonydd $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 6
- Llywydd $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 11
- Tonydd $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 29[1]

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddeb: Amen – bar 33
- Rhagarweiniad wedi'i seilio ar farrau 6 & 8 (yr alaw)
- Efelychiant rhwng motiff 3 nodyn agoriadol alaw'r Alto (bar 6) a chyfeiliant y Tenor a'r Bas (bar 8)
- Estyniad o'r un motiff 3 nodyn (Alto – bar 10) yn rhan y Tenor – barrau 12-13
- Gohiriant: 7-6 – bar 5[1] (Soprano/Alto)
- Harmoni mewn cyfyngau o 3ydd a 6ed
- Llawer o symudiadau fesul cam yn y cyfeiliant
- Rhythm yr alaw yn gyson

❍ **Offeryniaeth**
SATB

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
SATB: Soprano, Alto, Tenor, Bas
Lento: Araf iawn
poco rit: arafu ychydig
a tempo: yn ôl i'r tempo gwreiddiol
niente: pylu hyd at dawelwch llwyr

Pwyntiau diddorol

- Modd Aeolaidd.
- Llawer o alawon Cymreig yn hen iawn ac yn foddol.
- Dim ond 8fed yw ystod yr alaw.
- Dim geiriau o gwbl i'r Sopranos, dim ond hwmian llinell wrthbwyntiol (desgant).
- Mae'r ffigur 8 o dan allwedd y trebl ar erwydd y Tenor yn dynodi y dylai'r rhan gael ei chanu 8fed yn is na'r nodau ysgrifenedig.
- Yr Altos sydd â'r alaw yn y ddau bennill.
- Brawddegau alawol cytbwys.
- Dilyniannau harmonig minimol.
- *A cappella* (canu digyfeiliant).
- Newid yr arwydd amser o $\frac{6}{8}$ i $\frac{9}{8}$ ym mar 5.
- 5edau agored yng nghyfeiliant y Tenor a'r Bas – barrau 10; 11; 12
- Amser cyfansawdd gydol y darn.
- Defnyddiodd Grace Williams yr alaw hon yn ei gwaith 'Ffantasia ar Hwiangerddi Cymreig' i gerddorfa.

‘Wrth fynd efo Deio i Dywyn’

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
- Alaw deiran
- Stroffig – cynnwys y 6 phennill

❍ **Strwythur**

Alaw: _____ **A** _____ _____ **A** _____ _____ **B** _____ _____ **A** _____
4 4 4 4

1-6	7-22	23-25	26-41	42-45	46-61
Rhag	**Pennill 1**	**Pont**	**Pennill 2**	**Pont**	**Pennill 3**
SATB	Alto & Soprano	Tenor & Bas	Soprano	Soprano & Tenor	Alto, Tenor, yna Soprano

61-76	77-80	81-96	96-99	100-115	116-118
Pennill 4	**Pont**	**Pennill 5**	**Pont**	**Pennill 6**	**Coda**
Soprano	Soprano, Alto & Bas	Soprano & Alto	Tenor & Bas	Tenor & Soprano	SATB

❍ **Gwead**
- Gwrthbwyntiol
- Homoffonig

❍ **Cyweiredd**
- Moddol
- G Doriaidd

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig
- Tonydd $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar 117[1]
- Tonydd $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 29[2]
- Tonydd $\frac{6}{4}$ (ail wrthdro) – barrau 61; 63-65; 67-68

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Efelychiant (hanner cwaferi) rhwng Alto a Thenor – barrau 9; 21
- Diweddebau: Perffaith (yn y tonydd) – barrau 10; 14; 118
  Amherffaith – bar 111
- Pedal y tonydd – barrau 15-18 (Bas)

- Pedal y llywydd – barrau 54-58 (Tenor); barrau 69-73
- Dilyniant disgynedig Soprano a Thenor – barrau 42-45
- Dilyniant – barrau 101-102 (Bas)
- Nodau tonnog is yn y *ffa-la-la*, e.e. barrau 87; 91

❍ **Offeryniaeth**
SATB

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Allegretto: Eithaf cyflym
Andante: Cyflymder cerdded
poco accel. (accelerando): ychydig yn gynt
Presto: Cyflym iawn
meno mosso: llai o symudiad

Pwyntiau diddorol

- Disgrifio dau berson ar daith hapus i Dywyn drwy Ddolgellau ac Abergynolwyn (Llyn Tal-y-llyn) wna'r alaw werin boblogaidd hon.
- Mae'r alaw yn ysgafn ei naws, yn ailadroddus ei natur, ac yn defnyddio dogn go helaeth o'r *ffa-la-las* traddodiadol!
- Sylwch ar y nodau F# a C# sy'n cael eu defnyddio fel addurniadau alawol yn y *ffa-la-las* a'r diweddebau perffaith cryf.
- Dylanwad cryf y modd Doriaidd ar yr alaw yn y ddau far agoriadol, e.e. barrau 81-82.
- Ffocws yr alaw yn cael ei ddosrannu rhwng y lleisiau ym mhob pennill heblaw am y 4ydd pennill.
- Ni roddwyd unrhyw wir ffocws alawol i'r Bas; eu gwaith nhw yn hytrach yw cynnig cymorth angenrheidiol gyda'r harmonïau a'r rhythmau.
- Arwydd amser syml: $\frac{2}{4}$
- Newid yr arwydd amser yn adrannau'r bont, e.e. bar 44 – $\frac{3}{8}$; bar 77 – $\frac{5}{8}$; bar 78 – $\frac{8}{8}$
- Mae'r newid o'r curiad crosiet (syml) i'r curiad crosiet dot (cyfansawdd) yn digwydd y rhan fwyaf o'r amser ym mhennill 5 (barrau 81-96).
- Mae rhythm yr alaw yn newid ym mar 90.
- Harmoni mewn cyfwng o 3ydd a 6ed.
- Cyfalaw yn y Soprano – barrau 46-53.
- Effaith *stretto* (cywasgu) ym mar 61, lle mae gorgyffwrdd rhwng diwedd pennill 3 a dechrau pennill 4 – dim pont yma.
- Mae gan y penillion eraill bont fechan rhyngddynt, ar wahân i benillion 3 a 4 wrth gwrs.
- Deialog gerddorol efelychiadol rhwng Soprano a Tenor, ag un bar rhyngddynt (tôn yn is), ym mhennill 4 – barrau 61-68.
- Ysgrifennu homoffonig – barrau 73-74; 108-109.
- Defnydd helaeth o'r motiff hanner cwaferi alawol (bar 9) ym mhennill 5, e.e. barrau 83-84 yn SAT.
- Mae'r rhythm dot gafodd ei ganu gyntaf ym mar 5 nawr yn ymddangos yn y bont i bennill 5 (barrau 77-78). Mae'r un rhythm dot yn ymddangos yn ysbeidiol yn rhan y Bas – barrau 88-97.
- *A cappella*: canu digyfeiliant.

Dilys Elwyn-Edwards: *Caneuon y Tri Aderyn*

Rhagarweiniad

Cafodd y caneuon hyn eu comisiynu ym 1961 gan BBC Cymru, ac mae'r ddwy gân yn perthyn i gylch o dair cân gan frenhines cyfansoddwyr cyfoes Cymru, Dilys Elwyn-Edwards (1918-). Adar yw'r thema sy'n gyffredin i bob cân, ac mae dewis barddoniaeth R. Williams Parry yn adlewyrchu cariad y gyfansoddwraig at natur a'i themâu cyfriniol.

'Y Gylfinir'

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Trwy-gyfansawdd

❍ **Strwythur**

1-9	9-37	38-63	64-73
Rhagarweiniad Piano	**Pennill 1** Llais a Phiano	**Pennill 2** Llais a Phiano	**Coda** Piano

❍ **Gwead**
- Ysgafn
- Cyfeiliant gwrthbwyntiol

❍ **Cyweiredd**
- F Ficsolydiaidd â nodyn arweiniol meddal E♭, e.e. barrau 1-28
- C Ficsolydiaidd â nodyn arweiniol meddal B♭, e.e. barrau 53-57

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Diatonig, triadig gwasgar
- 11^{eg} mwyaf – bar 56 (cyfeiliant llaw dde)
- Agoriad ostinato llaw chwith yn seiliedig ar ddau gord – F ac E♭ (ail wrthdro) – barrau 1-16
- Ostinato'n dychwelyd yn y llaw dde, yn seiliedig ar ddau gord y 7^{fed} a'r 9^{fed} – barrau 38-42
- C7 leiaf – barrau 62–63

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Anacrwsis – barrau 9; 38
- Ostinati – barrau 1-15 (llaw chwith); 38-42 (llaw dde)
- Motiff llaw dde'r Piano yn dychwelyd – barrau 3-5; 13-15; 36-37
- Cyfeiliant Alberti/cordiau gwasgar yn ailadrodd

❍ **Offeryniaeth**
- Llais merch
- Piano

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**

Allegretto: Eithaf bywiog
sempre leggiero: cyffyrddiad ysgafn gydol y darn
Ped. sim. (simile): Pedal dal (cario ymlaen yn yr un modd)
cantabile: rhoi'r flaenoriaeth seinyddol i'r alaw
poco rit. (ritardando): arafu ychydig
a tempo: yn ôl i'r tempo gwreiddiol
poco più mosso: cyflymu'r tempo rywfaint
dim. (diminuendo): lleihau'r sain
cresc. (crescendo): cynyddu'r sain

Pwyntiau diddorol

- Llinellau lleisiol clir a chynnes, yn symud fesul cam yn aml.
- Defnyddio'r pedal dal er mwyn cael lliw ac awyrgylch (fel Debussy), e.e. barrau 25-28; barrau 68-73.
- Y llais yn $\frac{3}{4}$ (syml triphlyg), ond mae teimlad o $\frac{6}{8}$ (cyfansawdd dwbl) wrth wrando ar y cyfeiliant.
- Newid o $\frac{3}{4}$ i $\frac{4}{4}$ ym marrau 26; 34; 50; 57; 60-61, gyda'r Piano (tacet yn rhannol) a'r llais mewn crosietau acennog.
- Nodyn olaf y llais yw E♭ (barrau 62-63), sef 3^{ydd} nodyn cord moddol C7 lleiaf, ac sy'n amrywiad ar harmonïau agoriadol y gân.
- Caiff y ddwy linell leisiol (barrau 9-19) eu hailadrodd gyda newidiadau cynnil ym marrau 19-38.
- Newid yn rhan llaw chwith y Piano – rhythm ac arddull (barrau 38-57). Nawr mae gan y rhan arddull cwaferi $\frac{3}{4}$ pizzicato, tra bo'r llaw dde ag arddull ostinato $\frac{6}{8}$
- Mae'r ddwy law yn defnyddio allwedd y trebl, ar wahân i gyfeiliant llaw chwith yn allwedd y bas ym marrau 27-34 a 44-60, sy'n cynnig cyferbyniad lliw yn ogystal â rhychwaith seinyddol ehangach.
- Mae cri'r gylfinir i'w glywed ym marrau agoriadol yr ostinato yn llaw chwith y Piano.
- Y Piano sy'n creu'r darlun, a'r llais fel petai'n cyhwfan uwchben.
- Mae'r rhan leisiol yn symud fesul crosietau a minimau, tra bo'r momentwm yn cael ei gynnal gan symudiad cwaferi y cyfeiliant Piano.
- Mae'r llinell leisiol yn eithaf annibynnol ar y cyfeiliant Piano.
- Caiff rhagarweiniad y Piano (barrau 1-8) ei gydbwyso gan ddychweliad yr un motiffau yn y coda (barrau 64-73).
- Bu Dilys Elwyn-Edwards yn diwtor Piano yn y Brifysgol ym Mangor a chafodd ei dylanwadu gan Peter Warlock, Delius a Vaughan Williams. Bu'n astudio gyda Herbert Howells yn yr Academi Frenhinol.
- Daw'r farddoniaeth allan o gyfrol R. Williams Parry, *Cerddi'r Haf*.

❍ **Gwybodaeth bellach**

www.wmic.org

‘Mae Hiraeth yn y Môr’

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Trwy-gyfansawdd

❍ **Strwythur**

1-24	24-27	27-45
Llinellau 1-8 y soned	**Pont offerynnol** F leiaf – F fwyaf	**Llinellau 9-14 y soned** Rhythmau gwahanol

❍ **Gwead**
- Gweddol ddwys yn llaw dde’r Piano
- Cordiol/gwead triadig â’r cwaferi’n ailadrodd

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: A♭ fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
F leiaf (perthynol lleiaf) – barrau 22-26
F fwyaf (isfeidon fwyaf) – barrau 27-30

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Cymysgedd o gordiau triadig a chordiau 7^{fed}/9^{fed} â pheth lleisio clòs

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Anacrwsis ar ddechrau brawddegau, e.e. barrau 1-4; 4-8
- Pedal (tonydd) yn y llinell leisiol – barrau 40-45
- Pedal yn y cyfeiliant, e.e. barrau 35-39
- Ffigurau ostinato rhythmig, e.e. barrau 3-8, â harmonïau newidiol
- Estyniad o fotiff 3 nodyn y llaw chwith (bar 24) ym marrau 26-27, 8^{fed} yn is, a gyda chrosietau acennog yn lle cwaferi
- Mae’r motiff 3 nodyn hwn yn ymddangos nifer o weithiau yn y sgorio i’r llais, e.e. barrau 21-22 (‘Ac yn y galon’); 34-35 (‘O’r gerddi agos’)
- Ailadrodd y llinell leisiol yn llaw dde’r cyfeiliant, e.e. bar 11 (‘fflamau’r tân’), adlais ym marrau 12-13; a bar 22 (‘atgof, atgof gynt’) yn cael ei ailadrodd ym mar 23

❍ **Offeryniaeth**
- Llais merch
- Piano

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**

Amser cyffredin rheolaidd
Moderato: Cyflymder cymedrol
molto sostenuto: yn llyfn iawn
colla voce: rhoi'r flaenoriaeth i rubato'r unawdydd
legato: yn llyfn
poco accel. (accelerando): ychydig yn gyflymach

Pwyntiau diddorol

- Awyrgylch o hiraeth a chyfaredd.
- Mesur soned yw'r farddoniaeth, sef 14 llinell a 10 sillaf i bob llinell.
- Mae'r llinell leisiol yn annibynnol ar y cyfeiliant Piano.
- Dau syniad alawol – barrau 1-4 a barrau 8-10.
- Caiff y motiff lleisiol agoriadol ei ddefnyddio'n fynych i ddechrau llinellau newydd yn y gân, e.e. barrau 1-2; 5-6; 13-14; 27-28.
- Sylwch ar y cyfeiliant olaf hiraethus (barrau 40-47), â harmonïau meddal ym marrau 41-43, cyn tawelu i ddim.
- Defnydd parhaus o'r pedal dal er mwyn creu lliw ac awyrgylch.
- Sylwch ar y cwaferi cordiol yn ailadroddd yn y cyfeiliant llaw dde, ar wahân i far 26 a'r ddau far olaf oll.
- Cyfeiliant llaw chwith tenau â neidiau cyfyngol eang, a nifer o seibiau, sydd weithiau'n cynnal yr harmonïau, e.e. barrau 32-38.
- Dim ffigurau yn y llaw chwith ym marrau 40-47.
- Mae'r newid rhythmig ym mar 27 yn cyfateb i'r rhythm mydryddol newydd sydd yn ail ran y soned.
- Mae symudiad cwafer y llinell leisiol yn digwydd gan mwyaf yn ail hanner y bar, e.e. barrau 8-11; 19-22; 29-33; 35-37.
- Mae'r brawddegau lleisiol ar y cyfan yn 3 bar o hyd.
- Ystod leisiol eang – cyfwng o 11^{eg} (E♭-A♭).
- Caiff triad agoriadol y tonydd ym mar 1 ei ailadrodd ym marrau 44-45.

❍ **Gwybodaeth bellach**

www.wmic.org

Caryl Parry Jones

(Caneuon allan o *Goreuon Caryl*, Gwasg Carreg Gwalch, Llanrwst
– *17 trawsgrifiad o'i chaneuon poblogaidd gan Geraint Cynan*)

'Pan ddaw yfory'

Rhagarweiniad

Cafodd y gân hon ei chomisynu gan BBC Radio Cymru, pan gafodd sioeau teithio eu cynnal er mwyn hyrwyddo'r orsaf. Tyfodd grwpiau pop newydd dros nos, ac yn eu plith roedd 'Bando', gyda Caryl Parry Jones yn brif leisydd (bando: gêm debyg i hoci).

Mae'r ddau lais yn y gân hon yn canu am garu ar y slei a ddylai ddod i ben – 'Pan ddaw yfory rhaid dweud ffarwel'. Mae Caryl ei hun wedi adrodd am y diweddglo hapus i'r cyfnod go-iawn hwn yn ei bywyd!

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Pennill a Chytgan

❍ **Strwythur**

1-4	5-12	13-20	20-28	29-36	36-44	45-60	61-68	68-76	77-93
Rhag	**Pennill 1**	**Pennill 2**	**Cytgan**	**Pennill 3**	**Cytgan**	**Unawd Gitâr**	**Pennill 4**	**Cytgan**	**Unawd Gitâr**

❍ **Gwead**
- Tenau: Allweddell a Gitâr Fas – barrau 1-36
- Dwys: gydag ychwanegiad Syntheseiddydd, Cit Drymiau, Gitâr – barrau 36-44
- Unawd Gitâr â chyfeiliant lleisiau cymysg – barrau 45-61
- Tenau: Allweddell a Gitâr Fas – barrau 61-68
- Trwchus: Llenwadau'r Cit Drymiau yn amlwg – barrau 68-93

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: E leiaf
- Moddol, e.e. bar 11 – diweddeb moddol â nodyn arweiniol meddal (D)
- Diweddebau moddol eraill ym marrau 3-4; 19-20

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Rhai cordiau mwyaf, safle gwreiddiol – bar 11^{1} (C); bar 10^{4} (B)
- Lleiaf gan mwyaf – 7^{fedau} a 9^{fedau}, e.e. bar 5^{4} (E7 leiaf); bar 27^{4} (A7 leiaf); bar 24^{1} (E9 leiaf); bar 32^{1} (A9 leiaf)

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**

- Ailadrodd syniad melodig yn y rhagarweiniad – barrau 1-4
- Trawsacen yn y rhannau lleisiol – bar 27^{3}
- Canu unsain yn y Cytgan a Phennill 4
- Gohiriannau ac adfer yn y cyfeiliant, e.e. bar 31 (9-8)
- Gohiriannau ac adfer yn y cyfeiliant, e.e. bar 34 (4-3)
- Ostinato/riff rhythmig dot yn y bas – barrau 5-12
- Diweddebau: Perffaith – barrau 19^{4}-20
  Amherffaith – barrau 27^{3}-28

❍ **Offeryniaeth**

- Mezzo-Soprano a Bariton
- Lleisiau cefndirol dynion a merched
- Gitâr Flaen
- Gitâr Fas
- Allweddell
- Syntheseiddydd
- Cit Drymiau

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**

Gydag angerdd
Pennill
Cytgan
Unawd Gitâr (ad lib): unawd Gitâr fyrfyfyr
Rall. (rallentando): Arafu

Pwyntiau diddorol

- Daw motiff y rhagarweiniad o farrau 11-12.
- Dydy'r gerddoriaeth ddim yn dechrau ar gord y tonydd, ond ar gord C fwyaf (is-feidon y prif gywair).
- Cymysgedd o grosietau a motiff pendilio cwaferi yn llaw dde'r allweddell – barrau 5; 7; 9.
- Diweddeb moddol, e.e. barrau 3-4; 11-12; 19-20.
- Lleisiau merched mewn harmoni yn canu amrywiad ar farrau 75-76 yn y diweddeb olaf oll.
- Alaw gryno sy'n symud fesul cam.
- Cystrawen o frawddegau 2 far o hyd sydd i'r gân.
- Gosodiad y geiriau sy'n creu awyrgylch heriol y garwriaeth!
- Cyfeiliant offerynnol y band.
- Unawd fyrfyfyr gan y Gitâr Flaen.

❍ **Gwybodaeth bellach**

www.bbc.co.uk/wales/music/sites/history
www.carreg-gwalch.co.uk – *Goreuon Caryl*
www.sainwales.com – CD *Cyngerdd y Mileniwm* (Tr. 5, 6)

❍ **Cyfieithiad rhydd o'r geiriau**

Pennill 1: Being with you last night
was a timeless experience.
Being together was everything
in our quest for love.

Pennill 2: Tonight, please embrace me
before the curtain of reality descends.
We can only hope that tonight
will never end.

Cytgan: But part we must when morrow breaks
and reality will return,
taking us back to our past.
God alone knows which one of us
was the most foolish.

Pennill 3: I know that merely touching you
was a great mistake.
We both knew from the outset
that our love could never be.

Pennill 4: Tonight is our final farewell,
Sadly the dawn will soon break.
Give me all your warmth and tenderness
before tomorrow's cold light of day.

'Y Nos yng Nghaer Arianrhod'

Rhagarweiniad

Hon yw hoff gân Caryl. Daw'r teitl o un o chwedlau y Mabinogi – *Math fab Mathonwy*. 'Caer Arianrhod' yw'r gaer sy'n 'gartref i Arianrhod' – un o'r cymeriadau yn y stori hudol hon, ac roedd y gaer yn ymyl stiwdio recordio Sain yn Ninas Dinlle, ger Caernarfon.

Mae'r geiriau yn disgrifio'r broses flinedig o recordio drwy'r nos yn y 1980au cynnar (cyn y cyfnod digidol) gyda grŵp Caryl, 'Bando'. Chafodd y gân hon mo'i pherfformio'n fyw tan yn ddiweddar.

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Pennill a Chytgan

❍ **Strwythur**

1-2	3-10	11-18	19-27	28-35	36-44	45-52	53-61
Rhag	**Cytgan**	**Pennill 1**	**Cytgan**	**Pennill 2**	**Cytgan**	**8 Canol**	**Cytgan**

❍ **Gwead**
- Dwys: cyfeiliant lleisiol yn cynganeddu – barrau 1-2 (Rhagarweiniad)
- Tenau: dau ddimensiwn ar y cyfan (unawdwyr a Gitâr) – barrau 3-6
- Mwy trwchus o'r 8 Canol hyd at y diwedd, â chyfeiliant lleisiau cefndirol yn cynganeddu

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: C fwyaf
- Mwyaf ar y cyfan
- Rhai cyffyrddiadau yn y lleiaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
D leiaf (dros dro) – barrau 12-13
G fwyaf (llywydd) – barrau 17-18

❍ **Harmoni**

Cordiau:
- Cromatig, e.e. bar 33
- Defnydd o'r 5^{ed}, 7^{fed} a'r 9^{fed} meddal
- 7^{fed}, 9^{fed}, 11^{eg} a 13^{eg} mwyaf

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Anacrwsis (Pennill a Chytgan, ond am yr 8 Canol)
- Nodau camu acennog – barrau 4; 14
- Brawddegau dilyniannol – barrau 11-12 ac 13-14
- Nodau tonnog uwch ac is – barrau 17; 21
- Brawddegau cymesur (Cytgan 4+4)
- Diweddeb olaf 'radical' – VI(A♭) – I(C)

❍ **Offeryniaeth**
- Llais merch – Mezzo-Soprano
- 4 llais cyfeiliol – SATB (Caryl Parry Jones, Myfyr Isaac, Endaf Emlyn a Rhys Dyrfal)

❍ **Cyfeiriadau'r sgôr**
Yn dyner a breuddwydiol
Pennill
Cytgan
rit. (ritardando): arafu
a tempo: yn ôl i'r tempo gwreiddiol

Pwyntiau diddorol

- Motiff diweddebol addurnedig – bar 35.
- Nodyn meddal y feidon/nodyn y felangan – bar 35 yn y llais (E♭). Nodwedd o arddull y felangan/pop.
- Dilyniannau cyfeiliol â harmoni clòs – bar 16.
- Dydy'r gerddoriaeth ddim yn dechrau ar gord y tonydd, ond ar gord A leiaf (is-feidon y prif gywair) – fel yn 'Pan ddaw yfory'.
- Harmonïau cromatig – barrau 1-2.
- Llawer o nodau clwm yn yr alaw leisiol, sy'n nodweddiadol o'r arddull.
- Alaw gryno sy'n symud fesul cam – barrau 28-30.
- Cordiau clwstwr – bar 56 (D11 lleiaf).
- Llinell fas gromatig ddisgynedig – barrau 28-29.
- Cyfeiliant Gitâr acwstig.
- Awyrgylch sensitif.

❍ **Gwybodaeth bellach**

www.bbc.co.uk/wales/music/sites/history
www.carreg-gwalch.co.uk – *Goreuon Caryl*
www.sainwales.com – CD *Cyngerdd y Mileniwm* (Tr. 5, 6)

❍ **Cyfieithiad rhydd o'r geiriau**

Cytgan: The night in Arianrhod's home
heralds the beginning of our day – a hard day's night.
The night in Arianrhod's home however
doesn't seem so long when I'm with you.

Pennill 1: The tape has spooled its final turn;
a muted recording desk, a closed door.
The singing's over, the song is done,
our creativity is spent.

Pennill 2: Dawn's arrival signals our day's end,
The fingers are sore – the voices are hoarse.
The creative muse, long since departed
bequeathes only bowed bodies and bloodshot eyes.

8 Canol: Sometimes our spirits are down,
Sometimes the stress overwhelms us,
But soon the sun appears again
and the good times return.

The Beatles

Rhagarweiniad

Cafodd cerddoriaeth boblogaidd ei dylanwadu a'i gweddnewid yn syfrdanol pan ddaeth y *fab four* (1959-1970) ar y sîn. Ymledodd *Beatlemania* fel corwynt ar draws Prydain ac America. Daeth enwau John Lennon, Paul McCartney, George Harrison a Ringo Starr yn enwau cyfarwydd dros nos. Y grŵp hwn fu'n gyfrifol am boblogeiddio'r ensemble, yn hytrach na'r unawdydd. Roedd ganddynt ddoniau anhygoel i lunio alawon a harmonïau na chlywodd y byd pop mo'u tebyg cyn hynny, nac ers hynny. Cawsom nifer o glasuron megis 'Yesterday' a 'Hey Jude' gan y cyfuniad athrylithgar hwn – Lennon a McCartney.

'Yesterday'

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**
Dwyran

❍ **Strwythur**

1-2	3-9	3-9	10-17
Rhag Cord y tonydd ar Gitâr Sbaenaidd acwstig (dim plectrwm).	**A** Yn dilyn y motiff agoriadol enwog yn y bar cyntaf, mae alaw 7 bar delynegol esgynedig sy'n symud fesul cam (3+2+2) yn cael ei chanu gan lais dyn. Gitâr sy'n cyfeilio. Dilyniant cordiau B♭ - G yn atgof o ganeuon eraill y Beatles (ond i'r gwrthwyneb gan amlaf – yn y drefn G - B♭).	**A** Ailadrodd yr alaw, ond pedwarawd llinynnol yn ychwanegu haenen newydd gyda chordiau cyfeiliol cynaledig.	**B** Brawddeg gytbwys alawol newydd (4 bar). Ailadrodd y ddau far cyntaf ond mae diwedd y frawddeg yn wahanol.

18-24	10-17	18-24	25-26
A Ailadrodd ag ychydig o fân newidiadau yn yr offeryniaeth.	**B** Llinynnau yn parhau eto, ond newidiadau bach cyfrwys ers y tro cyntaf yn adran B. Llinell y Soddgrwth yn amlwg iawn ym mar 13 (E♭).	**A** Sgorio newydd i rannau'r llinynnau, e.e. Ffidil 1 yn hedfan uwchben y gweddill.	**Coda/Outro** Seiniau hwmian yn adleisio dau far olaf adran A (barrau 8-9) ond rhythm a chordiau gwahanol (F yn lle D leiaf).

❍ **Gwead**
- Tenau i ddechrau
- Mwy trwchus wrth i haenen linynnol gael ei hychwanegu
- Homoffonig drwyddo draw

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: F fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
D leiaf (perthynol lleiaf – dros dro) – barrau 4-5

❍ **Harmoni**
- Cyweiraidd
- Diatonig
- Mwyaf
- Lleiaf

Cordiau:
- B♭ fwyaf $\frac{5}{3}$ (safle gwreiddiol) – bar $6^{1,2}$
- G fwyaf $\frac{6}{3}$ (gwrthdro cyntaf) – bar $25^{3,4}$
- F fwyaf $\frac{6}{4}$ (ail wrthdro) – bar $25^{1,2}$
- A7 (llywydd D leiaf) – bar $4^{3,4}$
- D7 lleiaf – bar 23^{1}
- G6 lleiaf (6^{ed} atodol) – bar 12^{1}
- C7 (7^{fed} ar y llywydd) – bar $6^{3,4}$

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Diweddebau: Amen – barrau 9; 26
  Perffaith – barrau $6^{3,4}$-$7^{1,2}$; 16-17
- Motiffau appoggiatura adran A ar ddechrau'r bar, e.e. barrau 3, 5 a 7
- Pedal gwrthdro – bar 14 (llaw chwith y Piano: G) a bar 19 (llaw dde'r Piano: E)
- Trawsacen – barrau 8 a 9 (barrau 22-24)
- Gwrthsymud rhwng y rhan lleisiol a'r Soddgrwth – bar 15
- Alawon siâp bwa
- Llinellau bas disgynedig yn symud fesul cam, e.e. barrau 11-12
- Cordiau cynaledig gyda'r pedwarawd llinynnol – sgorio cryno iawn
- Gallai'r nodyn E♭ yn y bas ym mar 13 fod yn gyfeiriad byrhoedlog at y felangan

❍ **Offeryniaeth**
Gitâr Sbaenaidd
Pedwarawd llinynnol
Unawd i ddynion

Pwyntiau diddorol

- Mae mwy o fersiynau gwahanol o'r gân bop hon yn bodoli na'r un gân arall mewn hanes.
- Prif lais: Paul McCartney.
- Cafodd ei recordio yn Stiwdio Abbey Road ym 1965.
- Yn rhan o'r record hir *Help*.
- Anarferol oedd cael llinynnau unawdol yn cyfeilio yng nghanol y 1960au – band mawr neu gerddorfa oedd yn cyfeilio fel arfer yn y cyfnod hwnnw.
- Beatles oedd y grŵp pop cyntaf i ddefnyddio cymysgedd o arddulliau clasurol a phop, h.y. pontio'r ddwy arddull yn llwyddiannus.

- George Martin a drefnodd y gerddoriaeth a'r trefniannau cerddorfaol.
- Dyma'r gân gyntaf i gael ei recordio gan y Beatles gan ddefnyddio artistiaid eraill ar wahân i'r *fab four*.
- Arddull araf a myfyriol.
- Cafodd ei hysgrifennu gan Lennon-McCartney, ond roedd cyfraniad Paul yn fwy na chyfraniad John!
- Cyweiredd clasurol i'r gân, o'i chymharu â melanganeuon y grŵp.
- Dylanwad Elvis, Buddy Holly a Little Richard ar y Beatles.
- Y grŵp yn hoff o adeiladu'r caneuon mewn haenau (gwead).
- Defnydd o ieithwedd gerddorol harmonig amrywiol.
- Mae llais Paul ar y cryno ddisg ar un trac gan mwyaf, ar wahân i un lle (aml-dracio ar y nodau uchel).

'Hey Jude'

Elfennau cerddorol

❍ **Ffurf**

Dwyran (dwy brif thema wrthgyferbyniol)

❍ **Strwythur**

1-8	9-16	17-21	22-28
A Alaw drist, eto ar siâp bwa, yn esgyn yn raddol. Piano ac unawd leisiol.	**A** Ailadrodd, ond â Gitâr Rythm a chyfeiliant croesacen y Tamborîn wedi'u hychwanegu. Lleisiau cefndirol mewn harmoni yn ychwanegol – barrau 13-16. Chwarae blodeuog y Cit Drymiau ym mar 16 yn arwain at adran B.	**B** Datganiad melodig newydd â churiad cwafer acennog mwy pendant ar y Drwm Gwifren a'r Symbal. Lleisiau cefndirol mewn harmoni o 3yddau disgynedig. Gitâr Fas yn strymio â churiad crosiet.	**B** Ailadrodd, ond ag arddull ddiweddebol sgat yn ychwanegol. Canu a chord C7 yn arwain at ail ddatganiad o adran A.

9-16	17-21	22-29	1-6	30-36
A Dychwelyd ond â geiriau gwahanol. Gitâr Rythm, Gitâr Fas, offerynnau taro a lleisiau cefndirol yn dal yma, mewn cyfwng o 3ydd gan mwyaf.	**B** Ailadrodd, ond â geiriau gwahanol. Lleisiau cefndirol a chyfeiliant y band yn gryfach.	**B** Ailadrodd yr adran flaenorol eto, gan arwain at ailddatganiad rhannol o adran A.	**A** Datganiad alawol olaf (barrau 1-6) cyn symud ymlaen at y coda.	**Coda/Outro** Arpeggio appoggiatura dau 8fed – barrau 31-32. Sesiwn jamio sgat yn defnyddio tri chord – F, B♭ ac E♭. Gweadau mwy trwchus gydag offerynnau cerddorfaol ychwanegol.

❍ **Gwead**
- Tenau i ddechrau, ond graddol dyfu'n fwy trwchus (nodweddiadol o nifer o ganeuon y Beatles).

❍ **Cyweiredd**
- Prif gywair: F fwyaf

Enghreifftiau o drawsgyweirio:
B♭ fwyaf (is-lywydd) – barrau 18; 23

❍ **Harmoni**
- Cyweiraidd
- Diatonig
- Mwyaf
- Lleiaf

Cordiau:
- Triadau sylfaenol – I, IV, V (safle gwreiddiol)
- G7 lleiaf
- Cord nodyn arweiniol meddal – bar 34
- C7 (7fed ar y llywydd) – bar 15
- B♭ fwyaf $\begin{matrix}5\\3\end{matrix}$ (safle gwreiddiol), e.e. bar 5[1,2]
- C fwyaf $\begin{matrix}6\\3\end{matrix}$ (gwrthdro cyntaf) – bar 20[1]

❍ **Enghreifftiau o dechnegau a dyfeisiau cyfansoddi**
- Anacrwsis ym mhob adran A
- Un cord ym mhob bar gan mwyaf gydol y gân
- Pob cord yn adran A yn y safle gwreiddiol
- Llinell fas yn adran A yn cadw at wreiddyn y cord
- Llinell fas 'cerdded' ddisgynedig yn adran B – barrau 23-25[1]
- Arddull cwaferi pendiliol yn llaw dde y Piano yn adran A
- Trawsacen – barrau 5; 25
- Technegau pentyrru haenau ar ben ei gilydd yn dwysáu'r gwead
- Amrywiadau yn y sgorio wrth ailadrodd yr un gerddoriaeth
- Sgorio offerynnau taro croesacen (Tamborîn yn ailadrodd A – bar 9)
- Amser cyffredin $\begin{matrix}4\\4\end{matrix}$ – ar wahân i ailadrodd adrannau A ym mar 29, sydd yn $\begin{matrix}2\\4\end{matrix}$
- Diweddebau: Amen – barrau 35-36
  Perffaith – barrau 7^4-8; 15-16
- Cord E♭ ym mar 34 yn rhoi arlliw moddol i'r coda (Micsolydiaidd)
- Anghyseinedd cyfrwys ym mar 34 – cyfwng o 9fed (E♭–F)

❍ **Offeryniaeth**
Piano
Gitâr Rythm acwstig
Gitâr Fas
Cit Drymiau
Tamborîn
Lleisiau cefndirol
* Nifer o offerynnau, gan gynnwys Clarinét Bas a Basŵn Dwbl, mewn sesiwn jamio!

Pwyntiau diddorol

- Er bod y gân 'swyddogol' yn 7 munud o hyd, mae'r broses greadigol mewn gwirionedd yn gorffen ar ôl 3 munud a 35 eiliad, yna caiff barrau 33-36 eu hailadrodd 19 o weithiau mewn sesiwn jamio fyrfyfyr!
- Mae'r sesiwn jamio yn hirach na'r gân ei hun!
- Mae canu sgat (dynwarediad lleisiol offerynnol) yn y 4 bar olaf – barrau 33-36.
- Cafodd ei chyfansoddi gan Paul McCartney a'i recordio ym 1968.
- Cafodd ei chyfansoddi ar gyfer mab John Lennon, Julian (6 oed), pan oedd ysgariad rhwng John a Cynthia Lennon ar fin digwydd.
- Y teitl gwreiddiol oedd 'Hey Jules' (Julian), ond roedd yn haws canu 'Jude'.
- Aml-dracio triphlyg ar farrau 31-33, yn y frawddeg sy'n codi trwy'r raddfa.
- Mae adran A yn 8 bar o hyd, ond mae hyd adran B yn anarferol – 11½ bar. Gallai bar 17 gael ei ystyried fel bar cyswllt/pontio rhwng y ddwy adran.